------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mawrth 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.30-09.35)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch pwyntiau gweithredu dilynol o gyfarfod 12 Chwefror

(Tudalennau 1 - 4)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P1) Pwyntiau gweithredu dilynol o gyfarfod 12 Chwefror

### 2.2 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gwaith craffu'r Gweinidog ar Ymarferion Caffael Cymorth Cyflogadwyedd

(Tudalennau 5 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gwaith craffu'r Gweinidog ar Ymarferion Caffael Cymorth Cyflogadwyedd

### 2.3 Llythyr gan Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ynghylch rhagor o dystiolaeth

(Tudalennau 7 - 8)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P3) Llythyr gan Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ynghylch rhagor o dystiolaeth

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

(Tudalen 9)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P4) Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**2.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21**

(Tudalennau 10 - 22)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P5) Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21

**2.6 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Cyflwr y Ffyrdd - diweddariad**

(Tudalennau 23 - 29)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-19(P6) Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Cyflwr y Ffyrdd - diweddariad

**2.7 Llythyr at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Taliadau Cadw yn y Sector Adeiladu**

(Tudalennau 30 - 36)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P7) Taliadau Cadw yn y Sector Adeiladu

## 3 Gradd-brentisiaethau: Student voice a'r Brifysgol Agored

(09.35-10.20) (Tudalennau 37 - 59)

Rob Simkins, Llywydd, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
Ben Kinross, Swyddog Ymgysylltu â Phrentisiaid, Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid
Cerith Rhys Jones, Rheolwr Materion Allanol, Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Rhys Daniels, Rheolwr Cyflawni Rhaglen Brentisiaeth (Cymru), Y Brifysgol Agored

**Dogfennau atodol:**
EIS(5)-08-20(P8) Papur Briffio
EIS(5)-08-20(P9) Tystiolaeth gan NUS Wales a NSoA
EIS(5)-08-20(P10) Tystiolaeth gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru (Saesneg yn unig)

## Egwyl (10.20-10.30)

## 4 Gradd-brentisiaethau: Cyflogwyr

(10.30-11.15) (Tudalennau 60 - 63)
Gavin Jones, Pennaeth Rhaglenni Gyrfaoedd Cynnar, Airbus
Milly Blenkin, Rheolwr Rhaglen Dalent Grŵp GoCo

**Dogfennau atodol:**
EIS(5)-08-20(P11) Tystiolaeth gan Airbus (Saesneg yn unig)

## Egwyl (11.15-11.20)

## 5 Gradd-brentisiaethau: : Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru

(11.20-11.50) (Tudalennau 64 - 76)
Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol Estyn
Mark Evans, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P12) Papur Briffio

EIS(5)-08-20(P13) Tystiolaeth gan Estyn

EIS(5)-08-20(P14) Tystiolaeth bellach gan Estyn

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 7 Adroddiad drafft: Rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladu cartrefi

(11.50-12.05) (Tudalennau 77 - 120)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-08-20(P15) Draft report (Saesneg yn unig)

Eitem 2.1

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

24 Chwefror 2020

**Craffu Cyffredinol ar Waith Gweinidogion ar Drafnidiaeth a Chymorth Cyflogwyadedd**

Annwyl Ken,

Diolch am ddod i gyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ddydd Mercher 12 Chwefror 2020 fel rhan o'n gwaith craffu ar drafnidiaeth a chymorth cyflogadwyedd.

Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor:

**Llywodraethu a datblygu cynlluniau Metro yn y dyfodol yng ngogledd Cymru, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru**

- A oes cynllun strategol ar gyfer pob un o'r rhaglenni Metro, ac os felly ble mae wedi'i gyhoeddi? Sut mae'r cyhoedd yn gallu dod o hyd i fanylion prosiectau, a deall y cyllid a'r prosesau llywodraethu yn ogystal â'r sail

resymegol ar gyfer y cynlluniau Metro ar lefel rhaglen yn hytrach na lefel prosiect unigol?

**Goblygiadau Brexit i rwydwaith trafnidiaeth Cymru**

- Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Porthladdoedd Rhydd. Beth yw'r peryglon a'r cyfleoedd i Gymru? A yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Panel Cynghori ar Borthladdoedd Rhydd? Os na, beth yw'r rhwystrau? Manylion y darn o waith a wnaed gan un o'r byrddau parthau menter yng Nghymru, yn benodol ynghylch porthladdoedd rhydd.

**Gwaith y Tasglu ar Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu**

- Pa newidiadau penodol mewn dulliau sy'n cael eu gweithredu trwy'r Canllawiau Arfer Da a'r Safonau Cyffredin ar gyfer adeiladwyr tai ac awdurdodau lleol? Sut y bydd y rhain yn cael eu gorfodi a'u monitro? Mae'r Prif Weinidog wedi dweud bod y Canllawiau Arfer Da yn cael eu treialu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. A yw'r gwaith hwn wedi'i gyhoeddi?

Yn ogystal, oherwydd cyfyngiadau amser, ni lwyddodd yr Aelodau i godi nifer o faterion gyda chi yn ystod y cyfarfod. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r rhain:

- A allwch chi egluro cwmpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymwneud â therfynau 20mya. Mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at derfynau cyflymder 20mya a pharthau 20mya. A yw'r ddau yn cael eu hystyried? Beth yw cryfderau a gwendidau cymharol y ddau ddull o ran cost ac effeithiolrwydd yn benodol?
- A allwch chi roi rhagor o fanylion i ni am gryfder cyfredol y dystiolaeth ar gyfer effaith terfynau cyflymder a pharthau 20mya o ran cyfraddau damweiniau, ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr? Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymchwil sy'n awgrymu nad oes "tystiolaeth ddigonol" bod terfynau 20mya yn arwain at newidiadau sylweddol mewn gwrthdrawiadau ac anafiadau mewn ardaloedd preswyl o'u cymharu ag ardaloedd 30mya tebyg.

- Sut y bydd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar derfynau 20mya yn cael eu gweithredu, eu hariannu a'u gwerthuso?
- Dywed y Ddogfen Cychwyn Prosiect ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar barcio ar balmentydd fod cylch gwaith y Grŵp yn rhagdybio mai'r bwriad yw cael gwaharddiad cenedlaethol ar barcio ar balmentydd ledled Cymru.  A allwch chi amlinellu'r dewisiadau cyfreithiol a'r dewisiadau polisi sydd ar gael er mwyn bwrw ymlaen â hyn?
- Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cydnabod bod angen "dod o hyd i ateb sy'n gweithio [i'r mater o barcio ar balmentydd]" ac "nad yw'n dieithrio pobl".  Gan gydnabod nad yw'r Grŵp wedi adrodd eto, sut ydych chi'n credu bod modd sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau modurwyr a cherddwyr o ystyried y rhwystrau ar ofod ffyrdd a'r cyfyngiadau ar argaeledd dewisiadau amgen parcio a thrafnidiaeth gyhoeddus?

Croesawodd y Pwyllgor y gonestrwydd yn eich ymateb chi a'ch swyddogion i'r cwestiynau ar gymorth cyflogadwyedd.  Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am yr hyn sydd wedi digwydd ac i ba raddau y mae gwersi wedi'u dysgu. Fodd bynnag, rwy'n teimlo ar hyn o bryd mai'r peth mwyaf priodol yw i ni gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac felly byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw i dynnu sylw at y dystiolaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni.

Yn gywir,

Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Eitem 2.2

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

28 Chwefror 2020

Annwyl Nick,

**Craffu ar Waith y Gweinidog ar Ymarferion Caffael ynghylch Cymorth Cyflogadwyedd**

Cynhaliodd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau sesiwn graffu yng nghwmni Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ddydd Mercher 12 Chwefror 2019, gan ofyn i'r Gweinidog a'i swyddogion am fethiannau yn y broses gaffael ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru, sef contract gwerth £500 miliwn. Yn benodol, roedd y Pwyllgor am gael eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwybodaeth a rannwyd yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol ar y gyllideb ar **9 Ionawr**, ac yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar Gymorth Cyflogadwyedd ar **30 Ionawr**.

Er bod y Pwyllgor yn croesawu gonestrwydd y Gweinidog a'i swyddogion wrth ateb cwestiynau'r Aelodau ar 12 Chwefror, roeddem yn bryderus iawn am fethiant y ddau ymarfer caffael ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru, ac i ba raddau y dysgwyd gwersi ers i'r ymarfer caffael cyntaf gael ei atal. Daeth i'r amlwg bod y methiannau caffael hyn bellach yn cael eu hadolygu ar y lefel uchaf o fewn Llywodraeth Cymru. Mae trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael **yma**, ac mae'n ddealladwy pam fod y **cyfryngau wedi dangos cryn ddiddordeb** yn y mater hwn.


Rwyf wedi rhoi gwybod i'r Gweinidog ei bod yn briodol i ni gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y cam hwn, o ystyried eich swyddogaethau mewn perthynas â

chraffu ar wariant cyhoeddus, a gwaith blaenorol gan eich pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar **gaffael cyhoeddus**. Felly, rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i dynnu eich sylw at y dystiolaeth a gafwyd gennym.

Pe bai Swyddfa Archwilio Cymru neu'ch Pwyllgor yn dewis ymchwilio i'r mater hwn ymhellach, byddem wrth gwrs yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y gwaith hwnnw, o ystyried cylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o ran cyflogaeth a sgiliau.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, er gwybodaeth iddynt.

Cofion gorau



Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Copi at:

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llawr 5, Tŷ South Gate,
Stryd Wood,
Caerdydd CF10 1EW
029 2167 3434
james.price@trc.cymru
trc.llyw.cymru

5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.gov.wales

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

27 Chwefror 2020

Annwyl Russell

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu rhagor o dystiolaeth yng nghyswllt fy ymddangosiad i a Scott yn y Pwyllgor ar 29 Ionawr 2020.

Yn ystod y Pwyllgor, cyfeiriais at £1m o ad-daliadau am oedi fesul chwarter (paragraffau 87-90). Yn anffodus, hoffwn gywiro fy ymateb gwreiddiol ac egluro bod y ffigur o £1 miliwn y chwarter a ddyfynnais yn cynnwys yr holl iawndal drwy ad-daliadau a'r ad-daliadau refeniw i deithwyr. Mae ad-daliadau refeniw i deithwyr yn cwmpasu'r holl resymau dros ad-daliadau, boed hynny oherwydd materion gweithredol neu beidio. Er enghraifft, canslo tocynnau tymor, teithwyr yn newid eu cynlluniau teithio, trenau wedi'u canslo. Felly, hoffwn gywiro'r datganiad hwn – y ffigur diweddaraf cywir ar gyfer ad-daliadau am oedi yw £290,000 – rhwng 13 Hydref a 4 Ionawr.

Ym mharagraffau 267 – 269, ymrwymais i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch pryd y byddwn yn cynnal ein harolwg nesaf o'r holl staff. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn cynnal ein harolwg staff nesaf yn ystod y gwanwyn ond nid ydym wedi nodi dyddiad eto. Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau â'r pwyllgor.

Ym mharagraffau 327-328, ymrwymodd Scott i ysgrifennu rhagor am gynrychiolydd y Gymraeg ar ein Bwrdd. Gallaf gadarnhau bod ein Cyfarwyddwr Anweithredol, Alun Bowen – ein Cyfarwyddwr ar gyfer Gogledd Cymru sy'n siarad Cymraeg – wedi arwain yng nghyswllt ein polisïau am y Gymraeg.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: Llawr 5, Tŷ South Gate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 3EW
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 5th Floor, South Gate House Wood St, Cardiff, CF10 3EW

Rydym hefyd wedi sefydlu ein Panel Pensaernïaeth Ymgynghorol yn ddiweddar. Cafodd y Panel ei sefydlu ar ôl ymarfer mapio rhanddeiliaid ac ar ôl datblygu rhaglen waith fel rhan o'r rhaglen Pensaernïaeth Ymgynghorol ehangach. Mae hyn yn dilyn argymhellion a wnaed gan bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad ar Ddatblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019. Mae sefydliadau ac unigolion wedi cael eu pennu, gan gynnwys cynrychiolwyr ar ran cwsmeriaid, diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â chynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Byddwn hefyd yn gwahodd gwesteion sy'n cynrychioli pynciau a themâu amrywiol cysylltiedig â'n cynllun, a bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru a'r Gororau.

Bydd y Panel yn cael ei gyfarfod cyntaf ar 17 Mawrth 2020, gyda'r bwriad o gwrdd bob chwarter o'r flwyddyn ariannol newydd ymlaen. Bydd y Panel yn cael ei lywio gan ei Aelodau a'i Gadeirydd a bydd yn edrych ar y syniadau a'r datblygiadau arfaethedig sydd gan TrC ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan ddarparu mewnbwn uniongyrchol i sicrhau bod TrC yn gwrando ar ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ac yn glynu wrth yr egwyddorion arweiniol a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn gywir,

James Price

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JJ/0538/20

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Chwefror 2020

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Chwefror yn nodi barn Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ynghylch y fersiwn ddrafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Rwy'n croesawu'r gwaith craffu y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud hyd yma a hoffwn ddiolch i chi am eich sylwadau.

Byddaf yn ymateb i'r pwyntiau unigol a nodwyd yn eich llythyr fel rhan o Adroddiad Ymgynghori cynhwysfawr. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cynwys arsylwadau y Cynulliad Cenedlaethol a'r ymatebion eraill a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn drafft y Fframwaith.

Rwy'n disgwyl gosod yr Adroddiad Ymgynghori hwn ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'r FfDC, a dogfennau ategol eraill, ym mis Ebrill.

Diolch unwaith eto am yr holl waith yr ydych chi ac aelodau eraill eich Pwyllgor wedi'i wneud hyd yma.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 2.5

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21**

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru nodi adran eglur yn y gyllideb hon a chyllidebau yn y dyfodol yn amlinellu'n fwy eglur sut y mae cyllideb yr economi a thrafnidiaeth yn cefnogi datgarboneiddio, gan gynnwys rhoi manylion y dyraniadau cyllideb penodol dan sylw.**

**Ymateb:** **Derbyn mewn egwyddor**

Ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, roedd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd wedi cyhoeddi Cynllun Gwella’r Gyllideb, sy’n nodi camau pellach i weld sut y gellir gwreiddio asesiad o effaith carbon ein rhaglenni gwariant yn fwy cadarn ym mhroses y gyllideb. Mae’r asesiad o effaith carbon rhaglenni gwariant yn fater trawsbynciol y mae pob Gweinidog yn gyfrifol amdano a dylai fod yn sail i’r penderfyniadau cyllido y mae Gweinidogion yn eu cymryd wrth bennu cynlluniau gwario MEG manwl. Fodd bynnag, nid yw asesu effaith garbon benodol buddsoddiadau unigol bob amser yn broses syml. Er enghraifft, mae effaith lleihau carbon buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith gwefru trydan yn debygol o fod yn ddibynnol iawn ar y penderfyniadau rheoleiddiol y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ynghylch cerbydau tanwydd ffosil. Pan fydd hynny’n briodol ac yn ystyrlon, byddwn yn ystyried effaith gynyddol gwariant Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r effaith ehangach y mae gweithredu polisi yn ei chael ar allyriadau carbon. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i ddibynnu ar dystiolaeth ein hymgynghorwyr newid hinsawdd statudol, sef Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), ar gyfer pa rai o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru fydd yn cael yr effaith fwyaf. Yn ogystal, bydd datblygu’r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel nesaf yn nodi manylion y modd y bydd polisïau allweddol yn caniatáu i ni gwrdd â’n cyllideb garbon, gan roi eglurder a sicrwydd i fusnesau ac i unigolion.

.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dyraniadau cyllideb ar gyfer pob cynnig a pholisi yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel sy'n gysylltiedig â phortffolio Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth.**

**Ymateb:** **Gwrthod**

Mae Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer datgarboneiddio a gwarchod ein hamgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys £74m ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth ddatgarboneiddio sy’n dangos ein hymrwymiad i fynd i’r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Fel yr amlinellwyd yn ystod y craffu ar y gyllideb, mae mentrau o bwys yn parhau i fynd rhagddynt o fewn y portffolio Economi a Thrafnidiaeth, megis buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus integredig a theithio llesol, sydd hefyd yn cefnogi’r gwaith o gyflawni *Cymru Carbon Isel.*

Yn gyffredinol, byddai’n anodd asesu a chysoni cyfraniad uniongyrchol cyllidebau unigol at bob cam gweithredu carbon isel ar gyfer y portffolio. Nod cynllun carbon isel yw nodi sut y byddwn yn cyflawni ein cyllideb garbon, gan ddarparu gwybodaeth ar yr

un pryd i randdeiliaid ehangach ynghylch sut rydym yn gweithredu. Mae'r cynllun yn gyfuniad o gamau traws-lywodraethol i fynd i'r afael â phob cynnig ac wrth gwrs, gall mentrau gael effaith ar nifer o gamau gweithredu yn y cynllun.

Bydd y Strategaeth Drafnidiaeth newydd yn nodi'r weledigaeth i rymuso pobl yng Nghymru i symud o gwmpas mewn modd fforddiadwy a chyfleus ac mewn ffyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u hamgylchedd, drwy ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth addas ar gyfer y dyfodol. Bydd cost ac effaith pob ymyriad yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses datblygu polisi. Drwy wella ein seilwaith gwyrdd, gallwn ei gwneud yn haws i bobl deithio mewn ffyrdd mwy ecogyfeillgar. Mae hyn yn mynd law yn llaw â gwelliannau i'r gwasanaeth a fydd yn darparu gwell cysylltiadau i bobl, cymunedau a busnesau ar draws blaenoriaethau'r llywodraeth.

Fodd bynnag, byddwn yn gwneud ein gorau i roi enghreifftiau a thystiolaeth glir i'r Pwyllgor o'r modd y mae gwariant y portffolio yn cyfrannu at gyflawni'r nodau yn y cynllun carbon isel.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Llywodraeth ddarparu rhagor o fanylion mwy eglur am gyllideb gorfforaethol Trafnidiaeth Cymru nawr, a sicrhau y darperir yr wybodaeth hon yng nghyllidebau'r dyfodol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mater gweithredol i TrC yw penderfynu sut y gall gyflawni yn erbyn y llythyr cylch gwaith y mae Gweinidogion Cymru yn ei gyhoeddi, gan gynnwys sut mae'n diffinio ei gostau gweithredol/corfforaethol. Mae hyn yn ffurfio rhannau o'i gynllun gweithredu a busnes. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae TrC yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol fel y nodir yn Neddf Cwmnïau 2006. Ynddo, mae'n paratoi, yn cymeradwyo, yn llofnodi ac yn cyhoeddi ei ddatganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Argymhelliad 4. Wrth gyhoeddi'r achos busnes ar gyfer swyddogaeth Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y broses drosglwyddo ar gyfer cyfrifoldebau newydd, gan gynnwys: rhagfynegiad o'r dyddiadau pan fydd disgwyl i gyfrifoldebau unigol fod wedi eu trosglwyddo yn ystod 2020-21; sut y dewiswyd y cyfrifoldebau penodol a sut y bydd y trosglwyddo o fudd i Gymru; y cyllid ychwanegol y bydd TrC yn ei dderbyn i reoli'r cyfrifoldebau hyn; a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r cyllid ychwanegol hwnnw.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am unrhyw rôl yn y dyfodol i TrC gyda sail resymegol glir ar gyfer gwneud hynny ynghyd ag unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y cymorthdaliadau y mae Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC wedi eu derbyn ac yn disgwyl eu derbyn, yn ystod oes y contract. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan TrC, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i TrC sicrhau bod y taliadau a'r cymhorthdal masnachfraint disgwyliedig ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC ar gael ar wefan TrC. Bydd angen i hyn gael cafeatau ynghylch mynegeio ac unrhyw newidiadau i gwmpas y fasnachfraint yn ystod ei hoes yn ogystal â thracio ffioedd mynediad. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar wefan TrC.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o wybodaeth am y drefn rheoli perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys lefel y taliadau a'r cosbau a rhagor o fanylion am sut y bydd taliadau cosb yn cael eu hail-fuddsoddi. Yn yr un modd â gwybodaeth am gymorthdaliadau, dylai hyn fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan TrC, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo TrC i sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael ar ei wefan bob chwarter.

**Argymhelliad 7. Er mwyn cynnig eglurder ynghylch cyfraniad cymharol llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru at gefnogi gwasanaethau bysiau, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru a chyhoeddi'r tabl a ddarparwyd yn ei Asesiad**

**Effaith Rheoleiddiol drafft gan gynnwys data ar gyfer 2018-19 - 2019-20 cyn gynted â phosibl. Dylid ychwanegu data ar gyfer 2020-21 cyn gynted ag y bydd data awdurdodau lleol ar gael. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r ffigurau hyn bob blwyddyn yn y dyfodol. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sut a phryd y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn flynyddol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhwydwaith a seilwaith bysiau cynaliadwy ledled Cymru. Bydd cyhoeddi'r data hyn yn flynyddol yn helpu i ddangos yr ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ac, yn arwyddocaol, awdurdodau lleol, gan mai nhw sy'n gyfrifol am lunio contractau gyda gweithredwyr bysiau ar gyfer gwasanaethau bysiau na fyddent fel arall yn cael eu darparu'n fasnachol.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion am drafodaethau traws-lywodraethol ynghylch buddsoddiad mewn newid ymddygiad ar gyfer teithio llesol, a manylion lefel y buddsoddiad mewn rhaglenni newid ymddygiad gan adrannau eraill ar gyfer 2020-21.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae adrannau'r Llywodraeth yn cydweithio'n agos i gyfuno polisïau, rhaglenni a mentrau sy'n ymwneud â newid ymddygiad yng nghyswllt teithio er mwyn cydnabod y buddion posibl pellgyrhaeddol a ddaw i'r amlwg ar draws sectorau gwahanol. Fel rhan o weithredu Pwysau Iach: Cymru Iach, rydym yn gweithio â chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i weld sut y gellir cysoni cyllidebau rhaglenni er mwyn sicrhau newid mewn ymddygiad. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr sy'n gweithio ar ansawdd yr aer, datgarboneiddio ac iechyd ynghylch datblygu gweithgareddau cyfathrebu ar y cyd a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw cyllidebau cyfalaf adrannau eraill yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol wrth fuddsoddi mewn prosiectau fel ysgolion ac ysbytai.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn archwilio cyfleoedd i wreiddio teithio llesol yn ein buddsoddiadau seilwaith. Er enghraifft, mae canllawiau ysgolion yr 21ain ganrif wedi cael eu diweddaru i ystyried mynediad at deithio llesol i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen ac mae rhestr wirio ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi'r broses hon yn cael ei datblygu. Mae cyfleusterau teithio llesol sy'n cael eu darparu ar safle'r ysgol yn cael eu hariannu drwy gyllidebau addysg. Pan fydd ysbyty newydd yn cael ei gynllunio, un o'r prif ystyriaethau ar gyfer y Bwrdd Iechyd fyddai'r gofynion mynediad a theithio.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyngor a gafwyd cyn cyflwyno'r benthyciad diweddaraf i Faes Awyr Caerdydd, ac os nad yw hyn yn bosibl dylai ddarparu crynodeb o'i chasgliadau a manylion y cwmni neu'r unigolyn a ddarparodd y cyngor.**

**Ymateb: Derbyn**

Comisiynwyd Oxera Consulting LLP i ddarparu cyngor a dadansoddiad economaidd i Lywodraeth Cymru ynghylch gallu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i ad-dalu ei ddyled i Lywodraeth Cymru ac i sicrhau bod y benthyciad diweddaraf yn unol â rheolau Cymorth Gwladol yr UE.

Mae'r adroddiad llawn yn fasnachol sensitif, ond yn gryno, roedd Oxera:

- Wedi cadarnhau a oedd llif arian amcanol Maes Awyr Caerdydd, yn ôl achos canolog ei gynllun busnes, yn ddigon i dalu rhwymedigaethau dyled CIAL;
- Wedi ymchwilio i briodoldeb y tybiaethau allweddol sy’n sail i gynllun busnes Maes Awyr Caerdydd. Yn benodol, roedd wedi cymharu’r amcangyfrifon o ran twf y traffig, lefel y refeniw awyrenegol a heb fod yn awyrenegol fesul teithiwr a'r tybiaethau ynghylch y cynnydd o ran costau yn y cynllun busnes gyda pherfformiad diweddaraf y maes awyr a'r dystiolaeth oedd ar gael o feysydd awyr eraill tebyg;
- Wedi cynnal archwiliadau lefel uchel o briodoldeb y tybiaethau allweddol sy’n sail i gynllun busnes Maes Awyr Caerdydd. Roedd y croeswirio hwn yn dangos bod y tybiaethau allweddol sy’n sail i gynllun busnes y maes awyr yn rhesymol;
- Wedi archwilio sensitifrwydd y canlyniadau h.y. gallu Maes Awyr Caerdydd i ad-dalu’r ddyled dros amrywiaeth o senarios negyddol rhesymol, gan gynnwys digwyddiad trychinebus unigol yn 2021/22 a fyddai’n arwain at ostyngiad dros dro mewn traffig am chwe blynedd, cwmni hedfan sy'n un o’i brif gwsmeriaid yn mynd yn fethdalwr, cyfradd sylfaenol uwch o’i gymharu â chyfradd sylfaenol mis Mai 2019, a gostyngiad yn y gyfradd dwf yng nghyswllt refeniw heb fod yn awyrenegol fesul teithiwr; ac
- Wedi sicrhau bod y dadansoddiad, ar sail cynllun busnes y maes awyr, yn dangos bod telerau’r cyfleuster credyd yn cyd-fynd â rheolau Cymorth Gwladol ac yn benodol, wrth i’r llif arian rhydd a ragamcanwyd yng nghynllun busnes Maes Awyr Caerdydd ddod yn bendant, y bydd gallu Maes Awyr Caerdydd i dalu ei ddyled a gwella ei sefyllfa ariannol yn cynyddu; gan ddod i’r casgliad y disgwylir i’r maes awyr fod mewn sefyllfa i dalu’r prifswm ar y benthyciadau yn ôl, gan gynnwys y balans sy’n weddill ar y benthyciadau blaenorol a'r llog sydd wedi cael ei rowlio ymlaen i'w dalu ar ddiwedd cyfnod y benthyciad.

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu’r manylion diweddaraf am ei sail ymchwil a thystiolaeth ar gyfer effaith economaidd ehangach y maes awyr**

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2019 roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Oxera Consulting LLP i gynnal dadansoddiad manwl o effaith economaidd Maes Awyr Caerdydd. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus a yw'r maes awyr yn cael ei redeg yn fasnachol, gan ddisgwyl y byddai'n cynhyrchu elw yn y pen draw, neu a yw'n cael ei gefnogi fel ased seilwaith er budd economi Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Bwriedir cynnal trafodaeth lawn ar berchnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf ym mis Mawrth 2020.

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi ei safbwynt mai perchnogaeth gyhoeddus ar feysydd awyr yw'r arfer rhyngwladol safonol, gan gynnwys sail y datganiad mai dim ond 14 y cant o feysydd awyr sydd â buddiant sector preifat ynddynt.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2017, cyhoeddodd Cyngor Rhyngwladol y Meysydd Awyr (ACI) briff polisi ar berchnogaeth meysydd awyr, rheoleiddio economaidd a pherfformiad ariannol. Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r sector preifat yn cyfranogi yn 614 o'r meysydd awyr gwasanaeth masnachol.
- Amcangyfrifir bod mwyafrif (86%) y 4,300 o feysydd awyr sydd â thraffig wedi'i drefnu yn rhai cyhoeddus, gan fod llywodraeth neu endid llywodraethol yn berchen arnynt.
- Er bod meysydd awyr y mae'r sector preifat yn cyfranogi ynddynt yn cynrychioli oddeutu 14% o feysydd awyr y byd, mae'r meysydd awyr hyn yn delio â mwy na 40% o draffig y byd

Mae copi llawn o adroddiad ACI ar gael yma: https://store.aci.aero/product/aci-policy-brief-airport-ownership-economic-regulation-and-financial-performance/

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dull o ddosbarthu cyllid ar gyfer prentisiaethau yn y flwyddyn academaidd 2020/21 gan gynnwys esboniad o'r dull cyffredinol, yr holl fecanweithiau ac eithriadau rheoli galw, a sut y bydd y model yn ymateb i bwyntiau galw uchel**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd angen i ni gymeradwyo'r dull o bennu dyraniadau Prentisiaethau 2020-21. Ar ôl cytuno ar y dull hwn, bydd y manylion yn cael eu nodi yn llythyr y cynnig dyrannu a fydd yn cael ei anfon at bob darparwr dan gontract a bydd copi o'r llythyr hwn ar gael i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu swm interim, cymedrol, o gyllid i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng nghyllideb derfynol 2020-21 i'w caniatáu i gomisiynu ychydig o ymchwil trwyadl i wella eu gallu dadansoddi.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i wella eu gallu dadansoddol. Byddai unrhyw ymrwymiad i gynyddu'r cyllid i wella gallu ymchwilio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad ehangach o gyllid Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gwnaeth Lywodraeth Cymru ymrwymiad i adolygu cyllid Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ystod 2020-21

mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor EIS ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dilyn ei Ymchwiliad, a gynhaliwyd yn 2019.

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion sut y defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd ganddi i Airbus a'r sector modurol yng nghyllideb flaenorol 2019-20. Dylai hyn gynnwys unrhyw dargedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Dylai hyn gynnwys unrhyw dargedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru nodi hefyd, yn fanwl, ar ba delerau y bydd cyllid ychwanegol newydd 2020-21 yn cael ei ddosbarthu, y mecanweithiau sydd ar waith i fonitro ei ddefnydd, a'r enillion a ddisgwylir o'r buddsoddiad.**

**Ymateb: Derbyn**

O ran Airbus, nod yr arian yw gwella'r gallu i ymchwilio a datblygu yn ogystal â chynhyrchiant gweithgynhyrchu. Gwneir hyn drwy gefnogi Airbus i gyflawni nifer o brosiectau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel roboteg, awtomeiddio, digidoli, realiti rhithiol a deallusrwydd artiffisial; ac mae'r rhaglenni Israddedig/Ôl-raddedig yn feysydd datblygu allweddol er mwyn symud ymlaen yn effeithiol â rhaglen "Wing of Tomorrow" Airbus a chefnogi gweithgareddau datblygu ac ymchwil sy'n gysylltiedig ag AMRC Cymru. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Awst 2019, roedd y cyllid wedi helpu i sicrhau'r canlynol:

- Dros 2,000 o gyrsiau hyfforddi;
- Dros 9,000 o gymwysterau/cyflawniadau;
- 10 prentis i ymgymryd â hyfforddiant CIPS arbenigol;
- 14 prentis a aeth ymlaen i HNCs a Diplomâu;
- cymorth i 33 o weithwyr ar y rhaglen Gradd Sylfaen Peirianneg Awyrennau; a
- cymorth i 11 o weithwyr ar y cwrs B.Eng. Rhaglen radd ym maes awyrennau.

Ar gyfer y flwyddyn fydd yn dod i ben ym mis Awst 2020, rydym yn disgwyl y bydd lefelau hyfforddiant yn debyg yn fras i'r lefel ar gyfer 2018-19.

O ran y sector modurol, ni fydd Ford bellach yn tynnu'r rhan fwyaf o'r cyllid grant a ddarparwyd i lawr. Fodd bynnag, i gefnogi a gwella rhagolygon cyflogaeth y gweithlu yn y dyfodol, byddwn yn darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o ddarparu sgiliau trosglwyddadwy iawn y mae galw mawr amdanynt ledled y diwydiant ac sy'n cael eu cydnabod yn helaeth fel blaenoriaeth o ran cefnogi datblygiad economaidd. Bydd cyflogwyr sy'n recriwtio unigolion Ford sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn elwa o'r sgiliau uwch a ddarperir a gwell cadernid busnes, yn barod ar gyfer beth bynnag y bydd trafodaethau Brexit yn ei gyflawni. Hyd yma nid yw'r prosiect modurol arall wedi mynd rhagddo ac felly ni ddyfarnwyd cyllideb ar hyn o bryd.

Nid yw Airbus wedi cael dim cyllid arall yn y cyfnod hwn ac eithrio yng nghyswllt hawliad terfynol am £8,500 sy'n cael ei brosesu ar hyn o bryd ar gyfer rhaglen Cadetiaid Diwydiannol drwy'r gyllideb Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Ni fydd dim cyllid pellach ar gyfer y gweithgarwch hwn yn y dyfodol gan nad yw'r gyllideb bellach yn bodoli.

**Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o'r dadansoddiad o'r cyfraniad y mae cyllid yr UE yn ei wneud at y rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd yr esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi eu cynnal. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu i'r Pwyllgor gopïau o'r cynlluniau a'r rhagdybiaethau cynllunio y mae'n dweud ei bod wedi eu drafftio i fynd i'r afael â chyllid sgiliau ar ôl Brexit.**

**Ymateb: Derbyn**

Sefydlwyd y Gweithgor Brexit ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach y cyfeiriodd Mr Morris ato yn y Pwyllgor, ym mis Medi 2016 ar gyfer Addysg Uwch, a'i ehangu i gynnwys cynrychiolwyr o Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ym mis Mai 2018. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd arweinwyr o bob rhan o'r sector, gan gynnwys Is-Ganghellwyr a Phenaethiaid colegau, i drafod blaenoriaethau lefel uchel a phryderon ynghylch ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â darparu rhwydwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio. Er bod ffocws y cyfarfod wedi bod ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer sefyllfa dim cytundeb, mae'r cronfeydd strwythurol – gan gynnwys ESF ac ERDF – wedi cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfod, gan gynnwys yn y cyfarfod ar 12 Chwefror 2020. Roedd gwaith y Grŵp yn seiliedig ar y papurau canlynol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth yng Nghymru yn 2019 'Cymru: Diogelu ymchwil ac arloesedd ar ôl ymadael â'r UE' a 'Cysylltiad colegau a sefydliadau Addysg Bellach Cymru â chyllid yr UE' a gynhyrchwyd gan ColegauCymru yn 2017.

Yn ogystal, roedd gwaith wedi cael ei wneud yn 2018 a 2019 i edrych ar effaith Brexit heb gytundeb ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i gynnydd tebygol yn lefelau diweithdra, dileu swyddi a NEET ledled Cymru. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gryfhau gallu a chyrhaeddiad rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ac roedd wedi cyfrannu at gynllun gweithredu strategol cyffredinol dim cytundeb Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd dadansoddiad penodol yng nghyswllt rhaglenni allweddol, gan gynnwys REACT, sy'n cefnogi unigolion y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt, o faint o ddysgwyr y mae disgwyl y bydd angen cymorth arnynt ar ôl Brexit. Roedd y dadansoddiad hefyd yn ystyried ble roedd angen cyllid ychwanegol i fodloni'r galw, neu ble roedd angen ehangu'r ddarpariaeth er mwyn lleddfu ar effaith Brexit.

Ar hyn o bryd, mae SHELL wedi cael cyllid gwerth £340m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sydd wedi'i gymeradwyo tan fis Rhagfyr 2023, o dan weithrediadau Prentisiaethau, Hyfforddeiaethau, REACT a Twf Swyddi Cymru. Mae'r rhain yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau Ffyniant i Bawb i Ail-lunio cymorth cyflogadwyedd a darparu 100,000 o Brentisiaethau.

Yn sgil canlyniad y refferendwm yn 2016, bu'r Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn cydweithio'n agos â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i edrych ar y dewisiadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cyllid ESF yn dod i ben yn 2018, 2020 a 2023 ac effaith hyn ar y gallu i gyflawni'r ymrwymiadau Gweinidogol hyn. Roedd y gwaith hwn wedi diffinio faint o gyllid ESF fyddai ei angen i barhau â'r gweithrediadau hyn, ac felly'r rhaglenni sy'n seiliedig arnynt, tan fis Rhagfyr 2023. Arweiniodd hyn at adolygu cynlluniau busnes ESF a arweiniodd, yn ei dro, at ehangu prosiectau oedd eisoes ar waith a chynyddu lefel y cyllid ESF oedd ar gael i

SHELL.  Er bod nifer o amrywiadau a allai effeithio ar hyn, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid yn codi a gostwng, mae SHELL yn ffyddiog, ar sail sicrwydd parhaus gan WEFO, y bydd cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi Cyflogadwyedd a Sgiliau a darpariaeth Prentisiaethau hyd y gellir rhagweld.

Mae SHELL hefyd wedi bod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r ymgynghoriad ar fuddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru, ar y cyd â WEFO a rhanddeiliaid allanol, drwy gyfrwng gweithgorau buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol dan arweiniad WEFO.  Ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd gan raglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau rôl allweddol i'w chwarae yn unrhyw fframwaith cenedlaethol newydd, ac mae rhaglenni cenedlaethol yn debygol o barhau i fod â rhan yn y gwaith o ddarparu'r cyllid hwn.

**Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, sut y mae wedi rhoi cydraddoldeb o ran rhyw yn ganolog i fuddsoddiad a pholisi cyflogaeth a sgiliau'r flwyddyn nesaf; a sut y mae'n defnyddio'r gyllideb sgiliau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chefnogi cynnydd menywod yn y gweithle**

**Ymateb:** **Derbyn**

Chwarae Teg, cronfa graidd Llywodraeth Cymru.

Mae Chwarae Teg yn rhoi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru er mwyn ei chefnogi i arwain y byd ym maes Cydraddoldeb Rhywiol.  Ymysg pethau eraill, mae hyn yn cynnwys polisi economaidd, cyflogadwyedd, gofal plant, seilwaith, addysg a sgiliau a chynlluniau cydraddoldeb strategol – dyma sy'n ysgogi holl weithgareddau ein rhaglenni a'r newid diwylliannol ehangach sy'n angenrheidiol yng nghyswllt segmentu'r rhywiau.

Mae Chwarae Teg wedi ysgogi nifer o raglenni i alluogi menywod i fagu'r hyder i ystyried llwybrau cyflogaeth na fyddent wedi meddwl amdanynt yn y lle cyntaf neu nad ydynt yn draddodiadol, a chael profiad ohonynt, yn ogystal â symud ymlaen mewn swyddi cyfredol:

- Rhaglen Arweinyddiaeth – rhaglen sy'n hwyluso cyfleoedd i gysgodi menywod mewn swyddi arwain ar draws sectorau gwahanol er mwyn herio tybiaethau ac ysbrydoli menywod i ystyried rolau arwain.
- Step to Non-Exec – gall menywod ifanc ddilyn rhaglen 18 mis i ddysgu am lywodraethu a rôl cyfarwyddwyr anweithredol.

Yn ystod 2019-2020 mae Chwarae Teg wedi comisiynu nifer o bapurau sy'n ymwneud â Menywod mewn Cyflogaeth, symud ymlaen a Chyflog y Rhywiau a bydd yn parhau i ddatblygu'r rhain yn fwy manwl yn ystod 2020-21;

- **Yn gaeth:  Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw** – Mae Chwarae Teg yn ymwybodol bod y profiad a'r risg o dlodi a'i effaith yn wahanol i Ferched nag y mae i Ddynion.  Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru wedi aros yr un fath i raddau

helaeth dros y degawd diwethaf. Mae'r adroddiad hwn yn ymhelaethu ar yr effaith y mae tlodi’n ei chael ar symud ymlaen mewn swydd ac ar gyfleoedd cyflogaeth.

- **Nenfwd Gwydr Triphlyg: Rhwystrau i Fenywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) rhag cymryd rhan yn yr economi** – Roedd Chwarae Teg wedi sylwi, drwy'r gwaith a wnaed ar gyfer yr Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol, bod cynnydd yn newid yn ddramatig wrth ganolbwyntio ar ferched BAME. Ni ellir mabwysiadu dull un ateb sy'n addas i bawb. Mae'r ymchwil hon yn dechrau cywiro’r bwlch hwn yn ein gwybodaeth am brofiadau merched BAME yn Economi Cymru ac yn dechrau trafodaethau ar eu hargymhellion.

  Yn 2020-21 bydd Chwarae Teg yn datblygu hwn ymhellach drwy ymgysylltu ag Undebau Llafur, TUC Cymru a rhaglenni WULF i ddechrau mynd i’r afael â’r materion a dechrau rhoi newid ar waith.

- **Canfyddiad Dynion o Gydraddoldeb Rhywiol** – Er bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at y nod o Gydraddoldeb Rhywiol, mae’r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu a’u hamodau cyflogaeth wedi’u tangynrychioli. Mae angen i ddiwylliannau newid ac o gofio mai dynion yw mwyafrif y gweithlu – mae angen newid natur diwylliannau'r gweithle yng nghyswllt rhywedd. Mae dynion yn llai ymwybodol o’r graddau y mae rhywedd yn parhau i lunio gyrfaoedd menywod ac mae bod yn fam yn parhau i fod yn ystyriaeth gyffredin yng nghyswllt llunio gyrfa menyw.

Bydd yr argymhellion a roddir yn yr adroddiad o ran goresgyn yr heriau a 2020-2021 yn golygu y bydd Chwarae Teg yn gweithio’n agos â rhwydweithiau cyflogwyr i ddechrau llywio a gweithredu argymhellion.

**Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am ei dull cyllidebu ar sail rhyw o ran ei rhaglen dreialu ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o Gam 2 yr Adolygiad o’r Rhywiau, ac fel rhan o baratoadau’r gyllideb ar gyfer 2020-21, rydym wedi ymrwymo i dreialu dull cyllidebu ar sail rhyw ar gyfer y cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol.

Yn gryno, mae cyllidebu ar sail rhyw yn golygu defnyddio lens rhywedd i weld sut mae llywodraethau’n codi ac yn gwario arian cyhoeddus. Mae archwilio sut mae dyraniadau cyllidebol yn effeithio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol merched a dynion, ac ailstrwythuro penderfyniadau gwario er mwyn dileu canlyniadau anghyfartal a bwrw ymlaen ag amcanion cydraddoldeb wrth galon cyllidebu ar sail rhyw. Nid yw cyllidebu ar sail rhyw yn golygu cyllidebau ar wahân ar gyfer menywod a dynion. Yn hytrach, mae’n adolygiad beirniadol o ddyrannu adnoddau er mwyn canfod effeithiau gwahaniaethol posibl (yn fwriadol neu’n anfwriadol) ar lefel rhywedd ac i ddeall y cyd-destunau y mae’r gwahaniaethau hynny’n codi ynddynt, gan helpu i osod y sylfaen ar gyfer penderfyniadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch sut i flaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau ac ystyriaethau cyllidebu ar sail rhyw yng nghyswllt y Cynllun Peilot Cyfrifon Dysgu Personol a datblygu ei ganlyniadau. Byddwn yn parhau i fireinio hyn drwy gydol y peilot. Y bwriad y tu ôl i'r gwaith hwn yw casglu adborth ynghylch i ba raddau y gallai defnyddio dull cyllidebu ar sail rhyw helpu i wella proses y gyllideb yn y dyfodol.

Bydd gwerthuso'r peilot Cyfrifon Dysgu Personol yn ceisio ymgorffori prif-ffrydio rhywedd a thechnegau cyllidebu ar sail rhyw newydd. Bydd yn defnyddio lens rhywedd i ddatblygu manyleb yr ymchwil a fydd yn sicrhau bod amcanion gwerthuso, a'r cwestiynau ymchwil a'r dadansoddiad sy'n deillio ohonynt, yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r agenda cyllidebu ar sail rhyw. Bwriedir cael dolen adborth reolaidd o'r gwerthusiad i'r Grŵp Llywio gweithredol er mwyn i ganfyddiadau cynnar allu helpu i wella'r ddarpariaeth. Bydd y fanyleb werthuso yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

**Argymhelliad 20. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE ar ôl Brexit**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dogfen ymgynghori ar gyfer fframwaith buddsoddi rhanbarthol i Gymru. Mae hyn yn digwydd gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru. Ar hyn o bryd, mae cyllid UE yn cynyddu'r capasiti ymchwil ac arloesi er mwyn i sefydliadau ymchwil allu denu mwy o gyllid i Gymru ac yn helpu busnesau i drosi arloesedd yn gynnyrch masnachol newydd a gwell. Mae hyn yn unol ag argymhellion Adolygiad Reid a bydd yn cael ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Ar ben hynny, mae is-grŵp Rhyngwladol a Thrawsffiniol wedi bod yn llunio egwyddorion a datblygu mecanweithiau darparu er mwyn manteisio ar gyfleoedd y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw dod o hyd i gyllid yn lle cyllid yr UE; mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn mynnu nad yw'n colli'r un geiniog o gyllid yn glir yn hyn o beth. Dyma oedd testun y papurau Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit? a Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r UE https://llyw.cymru/cymru-diogelu-ymchwil-ac-arloesedd-ar-ol-ymadael-ar-ue?, ac maent wedi'u nodi yn ein blaenoriaethau negodi ar gyfer y berthynas yn y dyfodol https://llyw.cymru/y-berthynas-rhwng-y-du-ar-ue-yn-y-dyfodol-blaenoriaethau-negodi-i-gymru-html?

**Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddosbarthu iddynt neu ei wario ganddynt.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau uniongyrchol ac anuniongyrchol, fel buddsoddi dros £42 miliwn mewn ymchwil gwasanaethau iechyd a chymdeithasol bob blwyddyn ac £20m yn y Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRI), Brychdyn.

Cynhelir ymarfer i gasglu dadansoddiad llawn o'r cyllid.

**Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r dirwedd ymchwil ac arloesi gyfan yng Nghymru gan gynnwys gweithgareddau a ariennir yn gyhoeddus ac yn breifat. Dylai'r adolygiad hwn ganiatáu i'r llywodraeth gael dealltwriaeth lawn o'i gwariant ymchwil ac arloesi, gan gynnwys gwella effeithiolrwydd y gwariant hwnnw. Byddai adolygiad o'r fath hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer strategaeth ymchwil ac arloesi draws-lywodraethol i gydlynu polisi ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru a chyllid o amgylch ei nodau ffyniant.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn y lle cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn ffurfio grŵp mewnol dan arweiniad swyddogion i gynghori Gweinidogion ar gwmpas unrhyw adolygiad o'r fath.

**Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor fanylion unrhyw ddyraniadau penodol yn y gyllideb a fydd yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r diwydiant dur.**

**Ymateb: Derbyn**

Nid oes dyraniad cyllideb penodol ar gyfer dur. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud oddi wrth ddull sectoraidd o gefnogi busnesau i ddull gweithredu rhanbarthol. Mae unrhyw geisiadau am gymorth gan gwmnïau dur yn cael eu hystyried fesul achos unigol a gellir darparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor

**Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r pwyllgor am yr ymgynghorwyr allanol y mae wedi'u comisiynu i weithio ar y fethodoleg ar gyfer y cyllidebau rhanbarthol dangosol (gan gynnwys, pwy ydyn nhw, pa allbynnau a ddisgwylir, yr hyn y maent yn canolbwyntio arno a pha ddull y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu gwaith dadansoddi).**

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gystadleuaeth agored, mae Llywodraeth Cymru wedi caffael Hatch Regeneris, cwmni ymgynghorol cyfyngedig preifat gyda swyddfeydd ym Manceinion a Llundain. Mae Hatch Regeneris yn gwmni ymgynghori economaidd annibynnol blaenllaw. Maent yn darparu ymchwil, dadansoddiadau a chyngor cymdeithasol ac economaidd cadarn o safon uchel i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector nid-er-elw.

Mae rhagor o fanylion am y gronfa ar gael yma: www.regeneris.co.uk

Cyflogwyd Hatch Regeneris i 'ddatblygu ac argymell dull methodolegol cadarn a theg, gan gynnwys fformiwla gyllido y gallai Gweinidogion Cymru ei defnyddio i gynhyrchu dyraniadau cyllideb rhanbarthol dangosol ar gyfer gweithgarwch datblygu economaidd'. Fel rhan o'u gwaith, mae Hatch Regeneris yn ymgynghori â phanel o arbenigwyr allanol a bydd eu hadborth yn cael ei ymgorffori mewn adroddiad a fydd yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn nodi eu dull gweithredu, sy'n seiliedig ar y dull "sylfaen wedi'i datblygu" (dadansoddiad seiliedig ar anghenion) sy'n ystyried nifer fach o feysydd economaidd-gymdeithasol sydd â chysylltiad agos â pholisi economaidd ynghyd â phwysau priodol sy'n cael eu cymhwyso i'r dangosyddion ym mhob parth.

Yn y pen draw, bydd y fethodoleg yn creu cyfranddaliadau cyllid rhanbarthol dangosol y gellir eu defnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch cyllid datblygu economaidd rhanbarthol a'i fonitro.

**Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r Pwyllgor am waith arbenigwyr y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) sy'n edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu Economaidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Adolygiad yr OECD o Wahanol Haenau Llywodraethu yn ymdrechu i gefnogi ymdrechion rhanbartholi Llywodraeth Cymru drwy wella gallu sefydliadau i gyflawni amcanion rhanbarthol. Gellir gweld trosolwg o'r prosiect yn:

https://llyw.cymru/adolygiad-yr-oecd-o-wahanol-haenau-llywodraethu-gwella-capasiti-sefydliadol-ar-gyfer-llywodraethu-rhanbarthol-a-buddsoddi-cyhoeddus-yng-nghymru-html?

Fel rhan o'r prosiect hwn, gofynnwyd i'r OECD roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar arferion gorau rhyngwladol – gan gynnwys o ran mesur twf cynhwysol. Disgwylir i waith yr OECD ddod i ben gyda chyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2020.

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: KS/139/20

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@cynulliad.cymru

3 Mawrth 2020

Annwyl Russell,

Yn dilyn fy ateb i chi yn WAQ79265 amgaeaf y diweddariad ynghylch yr argymhellion sydd wedi'u derbyn o adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018 sy'n berthnasol i'm mhortffolio.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai Llywodraeth Cymru werthuso a ellid defnyddio apiau symudol fel Street Bump Boston i wella ansawdd data mewn amser real sydd ar gael ar gyfer rhwydwaith ffyrdd Cymru | **Derbyn -** Mae apiau symudol yn dod yn fwyfwy cyffredin a byddai hwn yn offeryn defnyddiol arall i gynorthwyo'r broses o gynllunio gwaith cynnal a chadw. Cydnabyddir ar draws y diwydiant nad yw arolygon cyfredol yn gweithredu dull effeithiol mewn amser real. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithredu rhwydwaith System Gwybodaeth Ddaearyddol y gall Asiantau gael mynediad iddo ac amlygu materion yn ymwneud â chyflwr a llywio penderfyniadau am waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Archwiliadau symudol o broblemau peirianyddol gan asiantaethau Cefnffyrdd wedi'u gweithredu.<br><br>Mae'r ap cynnal Goleuadau Stryd yn cael ei ddatblygu a dylai fod yn barod fis Ebrill 2020 i'w brofi.<br><br>Cam 2 yw cael yr apiau symudol i'r Contractwyr fydd yna'n gallu diweddaru'r system. |
| 2 | Dylid cyhoeddi a chasglu Cynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd (ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau cefnffyrdd) mewn un lle i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus ynglŷn â'r broses. | **Derbyn – ar gyfer Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru yn unig ar hyn o bryd**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r Polisi a'r Strategaeth rheoli Asedau ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr arfer gorau cyfredol (ISO 55001:2014). Byddai cynlluniau rheoli asedau | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Mae strategaeth a chynllun rheoli asedau drafft gyda phrif ddangosyddion perfformiad i sicrhau bod y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru yn gwneud eu cyfraniad at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o fewn Symud Cymru Ymlaen, tra'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio systemau rheoli asedau unigol a fyddai'n wahanol ar gyfer pob awdurdod lleol. Gellid cynhyrchu adroddiadau cryno ar allbwn mewn fformat cyffredin a'u storio yn ganolog. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y ffordd orau o gymharu perfformiad asedau gydag awdurdodau lleol ar ôl cwblhau'r strategaeth a'r polisi. | | Rhagwelir y bydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn yr haf 2020. |
| 5 | Dylai Llywodraeth Cymru gynnull grŵp rhanddeiliaid tebyg i Grŵp Effeithlonrwydd Palmentydd Highways England i gynghori ar y deunyddiau a'r prosesau mwyaf effeithiol. | **Derbyn -** Dechreuodd gwaith yn 2017 gan arbenigwyr Palmentydd Llywodraeth Cymru i wella deunyddiau a phrosesau a ddefnyddir ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd ar y Rhwydwaith Strategol. Cynhaliwyd gwaith treialu gyda chanlyniadau cadarnhaol hyd yma. Mae cydweithio ag ymarferwyr amrywiol ledled y DU gan gynnwys Transport Scotland a Highways England a hefyd contractwyr lleol wedi arwain at ddynodiad newydd ar gyfer gosod wyneb ffyrdd sy'n addas i | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Mae'r gwaith yn parhau ar wella manylebau deunyddiau ar wyneb ffyrdd ac mae hyn wedi arwain at ragor o ddatblygiadau o ran wyneb y ffyrdd ar gyfer rhaglen 2019/20. Mae nifer o weithgorau wedi'u sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru, eu Hasiantaethau a'u Contractwyr i hyrwyddo rhagor o welliannau. Mae'r rhannau sy'n cael eu treialu yn perfformio yn dda iawn a rhagwelir y bydd y deunyddiau hyn yn llawer gwell o ran gallu parhau, cynaliadwyedd, diogelwch a gwerth am arian. |

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | ddiwallu heriau sydd ynghlwm wrth wydnwch, cynaliadwyedd ac effeithiau amgylcheddol newid hinsawdd. Mae arbenigwyr Palmentydd Llywodraeth Cymru yn mynychu Bwrdd Prosiect Technegol y DU ar hyn o bryd a gweithgorau cenedlaethol amrywiol ar gyfer disgyblaethau cynnal a chadw priffyrdd. | | Mae rhagor o ddatblygiadau wedi'u cynllunio er mwyn nodi y deunyddiau ar gyfer holl Rwydwaith Cefnffyrdd Cymru. |
| 6 | Dylai Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth a chyllid i waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio dros y tymor hir sy'n gost-effeithiol er mwyn lleihau atgyweiriadau tymor byr mwy costus. | **Derbyn -** Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy o arian mewn dulliau ataliol o gynnal a chadw, a fydd yn helpu i atal dirywio wyneb ffyrdd cyn bod angen ymyriadau mawr. Yn unol â hybu wyneb mwy gwydn ar gyfer ffyrdd, mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio bellach yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan gynllunio tymor hwy ac mae cynllun cynnal a chadw 5 mlynedd bellach yn cael ei ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio galluoedd modelu dirywio a ddefnyddir i ragweld gofynion o ran y cyllid | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Mae rhaglen 2020/21 ar gyfer rhoi wyneb newydd yn cynyddu y defnydd o dechnegau cynnal ataliol i alluogi dull o gynllunio hirdymor. Mae'r deunyddiau hyn yn gost-effeithiol ac yn cynhyrchu allyriadau carbon isel. |

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | sydd ei angen ar gyfer gwaith cynnal a chadw. | | |
| 7 | Pan fo daeareg neu ddeddfau ffiseg yn atal cydymffurfiaeth lawn â'r safonau a bennwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol, yna dylai unrhyw benderfyniad i ddiwygio cynigion gael ei wneud mewn cydweithrediad llawn â defnyddwyr. | **Derbyn -** Caiff llwybrau Teithio Llesol eu nodi drwy broses ymgynghori gan Awdurdodau Lleol. Os bydd y cyfyngiadau yn ymwneud â chyfyngiadau lleol yn unig, mae'n debygol y byddai'r llwybr yn cael ei gymeradwyo oherwydd y byddai'r budd cyffredinol i ddefnyddwyr yn gorbwyso unrhyw fân gyfyngiadau. Fodd bynnag, os byddai'r cyfyngiadau yn rhai a fyddai'n peryglu'r llwybr, byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid; Sustrans a Swyddogion Beicio ALl i ddod o hyd i lwybrau amgen. | Lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid byddai'n sicrhau y byddai'r broses arfarnu yn ystyried gwerth am arian a fforddiadwyedd. | Bydd y Canllawiau Cynllunio a Chyflenwi yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad erbyn diwedd Ionawr, sydd bellach yn adlewyrchu'r angen am fwy o hyblygrwydd yn gliriach. Bydd y broses ymgynghori yn rhoi'r cyfle i brofi a yw'r cydbwysedd iawn wedi ei sicrhau yn y diwygiad hwn. |
| 11 | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o Werthusiadau Prosiectau ar ôl Cychwyn diweddar yng Nghymru i asesu a yw ffyrdd yng Nghymru | **Derbyn -** Mae'r offeryn Arfarnu Trafnidiaeth Cymru eisoes yn cynnwys yr angen i nodi'r manteision wrth wneud y penderfyniad ynghylch buddsoddi, yn ystod y cyfnod datblygu ac ar ôl datblygu. | Ariennir y Comisiwn drwy'r gyllideb gyfredol. | Paratoi dogfennau i alluogi caffael comisiwn i gynnal adolygiad annibynnol o Werthusiadau Prosiectau ar ôl Cychwyn diweddar yng Nghymru. |

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | wedi cyflawni'r manteision economaidd a ragwelid pan gytunwyd ar y cynlluniau | Unwaith y bydd Adroddiadau Effaith digonol ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r manteision sydd ynghlwm wrth fuddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd. | | |
| 13 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth ar gael i sicrhau bod yr Arweiniad newydd ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddeall yn gyffredinol, ac yn cael ei roi ar waith gan gyrff cyhoeddus, a chontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan | **Cytuno -** Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu rhaglen o sesiynau cymorth i sicrhau bod y pecyn cymorth yn cael ei ddeall a'i fireinio lle y bo angen. | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Cynhelir gweithdai ar gyfer defnyddwyr WelTAG gyda sesiynau o sut i ddefnyddio gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i asesu ymyriadau trafnidiaeth yng Nghymru. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd pa feysydd o'r canllawiau y dylem ganolbwyntio arnynt wrth ddarparu cymorth pellach. |
| 14 | Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau y dylai pob prosiect ffyrdd newydd fod yn agored i gael ei herio er mwyn sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei | **Cytuno -** Mae Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso ymyriadau trafnidiaeth arfaethedig yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth | Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol. | Mae WelTAG 2017 yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ddatblygu, gwerthuso ac arfarnu Astudiaeth Trafnidiaeth Llandeilo. Cafodd dau ymgynghorydd eu penodi ym mis Hydref 2017 i gynnal cam 1, sydd bellach wedi'i gwblhau. Arweinodd hyn at nodi rhestr hir o 42 o opsiynau. |

Y newyddion trafnidiaeth diweddaraf o ran yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru Hydref 2018

**Chwefror 2019**

| Rhif | Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Goblygiadau Ariannol | Camau a Gymerwyd a Chamau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | chymhwyso'n drwyadl yn y cynllun. Os yw'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddilyn, dylai hyn ddigwydd yn ystod pob cam. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio detholiad bach o brosiectau i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ymhen 12 mis. | Cymru i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar lesiant Cymru, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i gyflawni gweledigaeth y Ddeddf o'r Gymru rydym ei heisiau.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar y cynnydd a wneir yn erbyn cynlluniau ffyrdd newydd a ddatblygwyd ers i'r Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 ddod i rym. | | Cafodd y rhestr ei lleihau i restr fer o 11 sydd wedi'u datblygu i gam 2. Roedd hyn yn seiliedig ar eu gallu i ddatrys y broblem, i ba raddau y maent yn cyd-fynd ag amcanion lleol a rhanbarthol, yr effaith bositif sy'n gysylltiedig â llesiant, cyflawni, cydnerthedd mewn ansicrwydd a'r posibilrwydd o newid hirdymor.<br><br>Dechreuodd Cam 2 ym mis Hydref 2018 ac mae yn agos at gael ei gwblhau, fis Ebrill 2020 gyda'r bwriad o ddechrau Cam 3 WelTAG ym mis Mehefin/Gorffennaf 2020. |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
National Assembly for Wales
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd

4 Mawrth 2020

Annwyl Ken,

**Taliadau cadw yn y sector adeiladu**

Y llynedd, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau sesiwn dystiolaeth ar y cyd i edrych ar sut defnyddir taliadau cadw yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach.

Cafodd y sesiwn ei hysgogi gan bryderon y Pwyllgor Cyllid ynghylch oedi cyn talu arian cadw i gontractwyr a sut mae hyn yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi. Yn benodol, sut mae'n effeithio ar is-gontractwyr llai sydd wedi cwblhau eu gwaith yn foddhaol heb ddiffygion ond sydd yn aml yn gorfod aros i gael eu taliad cadw am amryw resymau.

Roedd y sesiwn ar y cyd yn ystyried y canlynol:

- i ba raddau y mae taliadau cadw'n broblem i gwmnïau sydd wedi'u lleoli a/neu sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys sut y gallai problemau fod yn wahanol drwy'r gadwyn gyflenwi;
- a oes manteision i'r defnydd o daliadau cadw;
- dewisiadau amgen i'r defnydd o daliadau cadw a pha rôl a allai fod gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu a darparu'r dewisiadau amgen hynny.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
0300 200 6565

Ni chyhoeddodd y Pwyllgorau alwad ffurfiol am dystiolaeth, ond fe wnaethant roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith trwy sefydliadau newyddion Cymru, a chawsant saith ymateb i'r ymgynghoriad, gan gontractwyr a chyrff diwydiant. Ar 17 Hydref 2019, cymerom dystiolaeth lafar gan y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol (SEC), Sefydliad Adeiladu Siartredig Cymru (CIOB), a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB). Yn dilyn y sesiwn honno, roedd yr Aelodau eisiau cael rhagor o dystiolaeth lafar, yn benodol gan gontractwyr Haen 1 a'r sector cyhoeddus, ond gan nad oedd tystion ar gael, canslwyd y sesiwn hon. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgorau ragor o dystiolaeth ysgrifenedig gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) (Saesneg yn unig), a oedd yn barod i ymddangos ger ein bron.

Nododd y Pwyllgorau fod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad ynghylch taliadau cadw yn y diwydiant adeiladu, a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2018. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad maes o law. Hefyd, cawsom dystiolaeth ysgrifenedig gan Scottish Futures Trust a Llywodraeth yr Alban, sydd wrthi'n ymgynghori ar y mater hwn.

Mae'r problemau sy'n ymwneud â thaliadau cadw yn amlwg yn rhai sefydledig a chymhleth, ac o'r darn byr hwn o waith a'r ystod gyfyngedig o dystiolaeth a glywyd, nid yw'r Pwyllgorau mewn sefyllfa i argymell opsiwn/opsiynau i'w datrys.

Fodd bynnag, daeth rhai negeseuon cyson i'r amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd, a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddai'r Aelodau'n croesawu barn y Gweinidog ynghylch taliadau cadw, a beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â phryderon difrifol yn y diwydiant yng Nghymru, gan ystyried gweithgareddau ymgynghori mewn awdurdodaethau eraill.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Cofion,

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd

Y Pwyllgor Cyllid

Russell George AC
Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

## Atodiad A - Crynodeb o'r dystiolaeth i sesiwn y Cyd-bwyllgor

### Effaith peidio â thalu

- I bob pwrpas, defnyddir y 5 y cant a ddidynnir mewn taliadau cadw i gefnogi llif arian contractwyr haen 1, a gall gymryd rhwng dwy a phum mlynedd i ryddhau taliadau cadw. Mae'r system taliadau cadw yn sugno adnoddau prin y nifer uchel dros ben o fusnesau bach a chanolig yn y sector adeiladu yng Nghymru.
- Dywed y Sefydliad Adeiladu Siartredig fod llawer o gwmnïau'n rhoi'r gorau i unrhyw ddisgwyliad o gael y taliadau. Mae ymchwil Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn dangos bod 5 y cant o aelodau wedi gorfod dal cyflogau yn ôl oherwydd taliad hwyr neu beidio â thalu, a datgelodd arolwg yn 2014 fod 12.5 y cant o daliadau yn cael eu dileu fel dyled ddrwg.
- Mae'r Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol wedi awgrymu y collwyd gwerth £700 miliwn o daliadau cadw arian parod dros dair blynedd hyd at 2016 oherwydd ansolfedd ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi a bod gwerth £7.8 biliwn o daliadau cadw arian parod yn ddyledus o hyd dros y cyfnod hwnnw. Mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn nodi, yn dilyn cwymp Carillion, y collodd un aelod o Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr £200,000 mewn contractau heb eu talu a gorfodwyd aelod arall i ddiddymu ei gwmni. Tynnodd Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol Cymru sylw at y ffaith bod gan Dawnus werth £39 miliwn o ddyled i gredydwyr masnach, y byddai llawer ohoni wedi cynnwys arian cadw.

### Diogelwch anghyfartal

- Mae anghydraddoldeb o ran y diogelwch i gwmnïau cadwyn gyflenwi yn y sector cyhoeddus: fel y nododd Rudi Klein o Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol Cymru, mae taliadau cadw yn y sector cyhoeddus yn cael eu diogelu gan nad yw cyrff cyhoeddus yn mynd i'r wal. Felly, os bydd contractwr yn ymdrin â chorff cyhoeddus, bydd yn cael ei ddiogelu. Ar y llaw arall, os ydych chi yn y gadwyn gyflenwi, byddwch yn colli'ch holl arian os bydd haen 1 yn mynd i'r wal.
- Hefyd, gellir dal taliadau cadw yn ôl oddi wrth is-gontractiwr am ddiffygion nad ydynt yn ymwneud â'u rhan o brosiect, ac na chydymffurfir â'r amodau a nodir yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf Adeiladu"). Nododd y Scottish Futures Trust bod y newidiadau i'r Ddeddf Adeiladu, mewn llawer o achosion, mewn gwirionedd wedi ymestyn yr amser y gall busnes bach neu ganolig aros i'w arian cadw gael ei ryddhau.

- Dywedodd Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol Cymru wrth yr Aelodau fod "hinsawdd o ofn" yn y diwydiant yn golygu nid yn unig nad yw cwmnïau cadwyn gyflenwi yn manteisio ar eu hawl i gael eu harian cadw eu hunain, ond nad ydynt ychwaith yn hawlio'r llog ar yr arian hwnnw a ddaliwyd yn ôl am flynyddoedd. Dywedodd un ymatebydd o fusnes bach yn y sector adeiladu nad oedd y broses ddyfarnu yn ddim gwell na 'llys cangarŵ' a dywedodd nad oedd gan fusnesau bach a chanolig lawer o siawns o amddiffyn eu hunain yn erbyn arferion y cwmnïau mwy.

**Mwy o ddibyniaeth ar daliadau cadw yng Nghymru**

- Dywedodd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol fod taliadau cadw'n cael eu defnyddio fwy yng Nghymru nag yn Lloegr, a bod pobl yn gorddibynnu ar daliadau cadw. Dywedon nhw fod pob cyngor, heblaw am ddau yng Nghymru, yn dibynnu ar daliadau cadw a'u bod yn tueddu i ddefnyddio taliadau cadw naill ai i ychwanegu at eu gwariant cyffredinol neu i'w defnyddio fel cyfalaf gweithio. Dywed Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr fod contractwyr haen 1 yn gwneud arian trwy fuddsoddi taliadau cadw y maent yn eu dal gan gwmnïau cadwyn gyflenwi, ac mae honiad y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod arian cadw yn cael ei fuddsoddi yn y marchnadoedd arian dros nos yn honiad sy'n peri pryder.
- Roedd yr arferion a ddisgrifiwyd yn y dystiolaeth a roddwyd i Aelodau'r Pwyllgor yn awgrymu bod y diwydiant adeiladu yn gweithredu mewn ffordd gamweithredol: esboniodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr sut mae'r model busnes yn golygu bod yr elw ar gyfer contractwyr haen 1 yn isel neu ddim yn bodoli (ffigur Build UK yn 2017 oedd -0.5 y cant), ac felly mae taliadau cadw yn gymhelliant mawr.
- Hefyd, dywedodd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol ei bod yn destun pryder bod awdurdodau iechyd yng Nghymru yn didynnu 10 y cant yn hytrach na'r lefel safonol, sef 5 y cant, a bod hynny'n mynd i lawr y gadwyn gyflenwi hefyd. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth gan PCGC, ar gyfer contractau fframwaith, mae taliadau cadw yn cael eu cymhwyso i 15 y cant olaf contractau yn unig, ac ar gyfer fframweithiau trydydd cenhedlaeth, dywedant mai'r ganran gadw wirioneddol a ddidynnir, felly, yw hyd at uchafswm o 0.75 y cant, gyda hanner yr arian yn cael ei ryddhau ar ôl ei gwblhau'n ymarferol.

**Manteision y gellir eu cwestiynu**

- Er mai pwrpas taliadau cadw yw darparu diogelwch rhag ofn nad eir i'r afael â gwaith nad yw'n cydymffurfio, dywedodd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol fod y canfyddiad hwn yn fwy amlwg na real, a bod yr anfanteision yn gorbwyso'r manteision. Nododd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol fod y swm sy'n cael ei ddal mewn taliadau cadw yn aml yn annigonol i ddelio â diffygion sylweddol pe byddent yn codi. Tynnodd sylw at bryderon a fynegwyd gan lywodraeth Seland Newydd cyn deddfu yn 2017 ynghylch yr effaith negyddol ar y diwydiant trwy ddweud y gall cyllido cyfalaf gweithio trwy daliadau cadw guddio a gwobrwyo perfformiad gwael ac arferion rheoli ariannol gwael. Cyfeiriodd hefyd at adroddiad y Fonesig Judith Hackitt yn 2018 ar ddiogelwch adeiladu a ddywedodd y gall telerau talu o fewn contractau (er enghraifft, taliadau cadw) arwain at ymddygiad gwael, trwy roi straen ariannol ar y gadwyn gyflenwi.

**Dulliau eraill**

- Defnyddir taliadau cadw mewn gwledydd eraill ledled y byd hefyd, ond nodwyd nifer o ddulliau eraill posibl, o gyfrifon banc prosiectau i fathau o fondiau, cyfrifon rhanddeiliaid, gwarantau rhiant-gwmni a chronfeydd ymddiriedolaeth. Mae'n ymddangos bod manteision ac anfanteision i bob un ohonynt. Roedd tystiolaeth Llywodraeth yr Alban yn tynnu sylw at fondiau cadw, bondiau perfformiad a gwarantau rhiant-gwmnïau fel dewisiadau amgen i daliadau cadw, ond dywedodd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol nad yw bondiau cadw yn ddewis posibl i gwmnïau bach oherwydd y gost uchel.
- Tynnodd PCGC sylw at ddulliau amgen posibl eraill o ddefnyddio taliadau cadw, er eu bod wedi nodi nad oeddent yn ddi-risg, a dywedant fod y dull traddodiadol o gadw o bosibl yn dal i gynnig y dull gorau, cyn belled â bod y canrannau a'r methodolegau cadw yn cael eu hasesu'n rhesymol a'u cymhwyso'n deg.

**Defnyddio cyfrifon banc prosiectau yng Nghymru**

- O 1 Ionawr 2018 ymlaen, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyfrifon banc prosiectau ar gontractau perthnasol gwerth £2 filiwn neu fwy.
- Nododd y Sefydliad Adeiladu Siartredig mai nifer fach sy'n defnyddio mesurau fel cyfrifon banc prosiectau, gan awgrymu mai un o'r prif resymau am hyn yw diffyg cymorth i fabwysiadu'r cynlluniau uchod a allai fod yn fiwrocrataidd, yn enwedig ar lefel contractwr busnesau bach a chanolig.

- Awgrymodd y Sefydliad Adeiladu Siartredig hefyd mai anaml y defnyddir cyfrifon banc prosiectau y tu hwnt i'r sector cyhoeddus ac mae pryderon ynghylch pa mor addas ydynt ar gyfer prosiectau llai.

**Clustnodi a chynigion deddfwriaethol**

- Defnyddir taliadau cadw yn helaeth mewn gwledydd eraill, gan gynnwys UDA, Canada, Tsieina, Awstralia a Seland Newydd. Mae enghreifftiau yn New South Wales, Canada a Seland Newydd o gyflwyno'r syniad o 'glustnodi' arian cadw mewn cyfrif banc ar wahân, neu ei gadw 'mewn ymddiriedolaeth'. Mae'r Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o awdurdodaethau eraill ddeddfwriaeth ar waith sy'n clustnodi taliadau cadw arian parod trwy fynnu y cânt eu rhoi mewn ymddiriedolaeth neu mewn cyfrif rhanddeiliaid nes iddynt gael eu rhyddhau.
- Darparodd y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol gopi o Fil arfaethedig a ddatblygodd yn 2013. At hynny, rhoddodd gefnogaeth i Fil Aelodau Preifat a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Ionawr 2018, sef y Bil Adeiladu (Cynlluniau Symiau Dargadw), sy'n darparu templed defnyddiol yn eu barn nhw. Roedd y Bil hwnnw'n cynnig diwygio adran 111 o'r Ddeddf Adeiladu i orfodi cynllun blaendal cadw gorfodol ar y partïon ac ar yr amod y byddai methu â chydymffurfio â'r gofynion hynny yn golygu bod angen rhoi ad-daliad arian parod i'r sawl sy'n cael ei dalu o fewn saith diwrnod gwaith o'r adeg y cafodd yr arian parod cadw ei ddal yn ôl. Fodd bynnag, cafodd ail ddarlleniad y Bil ei oedi sawl gwaith, a daeth ei hynt drwy'r Senedd i ben ym mis Hydref 2019.

**Rôl technoleg ddigidol**

- Hefyd, mae'r Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol wedi noddi datblygiad llwyfan digidol er mwyn diogelu arian cadw, a fyddai'n cynnwys cronfa yswiriant dan berchnogaeth y diwydiant i sicrhau y caiff taliadau cadw eu rhyddhau yn llawn ac ar amser. Byddai'r taliadau cadw'n cael eu clustnodi mewn cyfrif ymddiriedolaeth, gyda system glirio dan berchnogaeth y diwydiant. Mae'n awgrymu mai costau'r cynllun fyddai tua £230 am bob £100,000 o werth y contract, ac mae cynllun peilot yn barod i'w brofi.
- At hynny, nododd tystiolaeth y Sefydliad Adeiladu Siartredig y gobaith o alluogi'r syniad o ddigideiddio taliadau trwy fabwysiadu Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM) a datrysiadau data, gan nodi bod taliadau yn y diwydiant yn dal i fod yn broses analog i raddau helaeth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Ymateb i Ymgynghoriad

## Prentisiaethau Gradd

Ymateb ar y cyd yw hwn gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru) a Chymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid Cymru (CGyP Cymru) i ymchwiliad y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau i Brentisiaethau Gradd.

### Ynghylch UCM Cymru a CGyP Cymru

UCM Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli myfyrwyr yng Nghymru; mae ei aelodaeth yn cynnwys 20 o undebau myfyrwyr ar draws addysg bellach ac uwch, ac mae'n eiriol ar ran mwy na 250,000 o fyfyrwyr. Ers Ionawr 2020, mae Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid (CGyP) yn aelod llawn o UCM, gan ddarparu llais cenedlaethol i brentisiaid.

### Ymateb i Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1. A ddaeth unrhyw broblemau i'r amlwg wrth i radd-brentisiaethau cael eu cyflwyno, a pha bethau y gellir eu dysgu o'u cyflwyno?**

Mae prentisiaethau gradd yn gyfle i sbarduno symudedd cymdeithasol ac mae iddynt y potensial i sicrhau manteision economaidd. Pan fyddant wedi'u gwireddu'n llawn, gall prentisiaethau gradd gyfrannu at bontio'r bwlch rhwng addysg alwedigaethol ac academaidd, yn ogystal â chyflawni amcanion ehangu mynediad o fewn addysg uwch.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ceisio canolbwyntio ar feysydd lle mae prinder sgiliau drwy gyfyngu ar nifer y fframweithiau prentisiaeth gradd, ac mae hyn wedi osgoi llawer o'r problemau a gafwyd yn ystod y broses gyflwyno yn Lloegr. Canfu Ofsted bod cyfran sylweddol o gyllido ardoll prentisiaeth yn Lloegr wedi mynd i ddarparwyr addysg sy'n cyflwyno cynlluniau gradd wedi'u hailwampio, sy'n tueddu i fod o fudd i'r rheiny sydd eisoes yn meddu ar gymwysterau da ac sy'n ennill cyflog sylweddol[1]. Canfu'r Swyddfa Myfyrwyr mai dim ond 13% o brentisiaethau gradd yn Lloegr yn 2016/17 a gyrchwyd gan fyfyrwyr o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig.[2] Os yw Cymru am osgoi gwneud y camgymeriadau hyn, credwn fod dull sy'n cyfyngu ar y math o brentisiaethau gradd sydd ar gael yn fuddiol.

Fodd bynnag, credwn fod natur hynod gul y cyflwyno hyd yma yng Nghymru wedi golygu nad yw manteision cymdeithasol prentisiaethau gradd wedi'u gwireddu eto. Mae'r ffaith bod 80% o'r 155 a gychwynnodd ar brentisiaethau gradd yn 2018/19 yn ddynion, ac nad oedd bron yr un ohonynt wedi datgan anabledd, yn dangos bod y potensial i brentisiaethau gradd ehangu mynediad heb ei gyflawni.

Byddem yn sicr o blaid ehangu fframweithiau prentisiaeth gradd mewn iechyd a gofal

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761606/29523_Ofsted_Annual_Report_2017-18_041218.pdf

[2] https://www.officeforstudents.org.uk/data-and-analysis/analysis-of-degree-apprenticeships/disadvantage/

ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr
nus wales
national union of students

CYMDEITHAS GENEDLAETHOL PRENTISIAID cymru
NATIONAL SOCIETY OF APPRENTICES wales

cymdeithasol. Mae cynllun 'Cymru Iachach'[3] Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod yr angen i gryfhau hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, a chredwn y byddai ehangu prentisiaethau gradd i'r sector hwn yn ffordd effeithiol o gyfrannu at hyn.

Credwn hefyd y dylai unrhyw un yng Nghymru allu cael mynediad i brentisiaeth gradd, waeth ble maen nhw'n byw, ac mae ymchwil yn dangos bod y myfyrwyr mwyaf difreintiedig yn aml yn gorfod teithio bellaf i gael mynediad i addysg[4]. Ar hyn o bryd mae nifer ddethol o safleoedd yn cynnig agwedd hyfforddiant prentisiaeth gradd, a chredwn y dylid ehangu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ledled y wlad.

Credwn fod diffyg arweiniad o ran y broses y byddai angen i brentis gradd ei dilyn pe bai ei gyflogwr neu ei ddarparydd addysg yn rhoi'r gorau i weithredu. Byddem hefyd yn croesawu mwy o ganllawiau ar sut y gall prentisiaid gradd gael gafael ar yr un lefel o gymorth i ddysgwyr yn eu darparydd addysg â'u cyfoedion sy'n ymgymryd â mathau mwy cyffredin o astudio. Credwn y dylai'r rheini sy'n ymgymryd â phrentisiaethau gradd - a phrentisiaethau yn gyffredinol - gael yr un mynediad at gyngor, eiriolaeth a chefnogaeth ag y mae myfyrwyr AU yn eu derbyn yn draddodiadol drwy wasanaethau'r brifysgol a'u hundebau myfyrwyr.

**Cwestiwn 2. A oedd y broses a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i gymeradwyo cynigion gan ddarparwyr i ddarparu gradd-brentisiaethau yn foddhaol?**

Mae angen gwreiddio partneriaeth dysgwyr - y cyfeirir ati weithiau fel partneriaeth myfyrwyr - yn y broses gymeradwyo, yn ogystal â chyflwyno a phrofiad prentisiaethau gradd. Dylai'r cynigion gynnwys dysgwyr yn y broses ddrafftio, a dylai'r cynigion hynny fynd i'r afael â sut y bydd dysgwyr yn gallu cyrchu strwythurau cynrychiolaeth sy'n debyg i'r rhai a geir ledled darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 eraill. Dylai UCM Cymru, a CGyP Cymru fel aelod, fod yn rhan o asesu a yw prentisiaethau gradd yn darparu lefel ddigonol o bartneriaeth dysgwyr.

**Cwestiwn 3. Beth yw eich barn am y galw am radd-brentisiaethau, a sut y dylid rheoli'r galw hwnnw, o ran amrediad y fframweithiau ac o ran y galw ymysg cyflogwyr a dysgwyr?**

Dylai prentisiaethau gradd fod yn hygyrch i unrhyw un waeth ble maen nhw'n byw. Mae'r systemau addysg alwedigaethol fwyaf llwyddiannus yn y byd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gymesur â'r galw; mae'r Almaen wedi cyflwyno prentisiaethau ar lefel baglor a meistr mewn ymateb i'r galw, ac yn sicrhau bod y rhain ar gael ledled y wlad[5].

Dylid datblygu fframweithiau prentisiaeth ar sail partneriaeth rhwng dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg, er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu creu ar y cyd. Credwn, er bod gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl i'w chwarae yn eu ffurf bresennol, y dylid ategu eu hargymhellion drwy ddadansoddiad gwell o ddata, gyda chefnogaeth Lywodraeth Cymru, ac y gweithredir ar sail y data hwnnw.

**Cwestiwn 4. I ba raddau y dylai gweithgaredd sydd â'r nod o ehangu mynediad fod yn rhan o broses recriwtio prentisiaid gradd, a sut y gellir defnyddio hyn i sicrhau bod carfannau'n gynrychioliadol?**

Dylai ehangu mynediad fod yn ganolog i bolisi prentisiaethau gradd. Mae canfyddiad CCAUC mai dynion oedd pedwar o bob pump o'r rhai a gychwynnodd brentisiaeth gradd yn 2018/19 yn dangos nad yw hyn wedi cael ei wireddu. Ni chyflawnwyd yr uchelgais hon yn Lloegr er gwaethaf bod prentisiaethau gradd wedi'u lansio yn 2015, gydag 87% o brentisiaid mewn

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf

[4] https://www.jisc.ac.uk/news/disadvantaged-students-have-to-travel-12-times-further-29-jan-2019
[5] https://www.tagesschau.de/wirtschaft/bachelor-professional-101.html

rhaglenni sy'n derbyn cymorth ariannol yn bobl groenwyn yn ôl data'r Swyddfa Myfyrwyr.

**Cwestiwn 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar gost gradd-brentisiaethau, sut mae gradd-brentisiaethau yn cael eu hariannu a lefel y cyllid a ddyrennir iddynt?**

Mae'r peilot ar gyfer prentisiaethau gradd, sydd wedi golygu bod Llywodraeth Cymru yn talu cost dysgu'r prentis a bod cyflogwyr yn talu cost eu cyflog, yn cynrychioli llwybr i addysg uwch sy'n caniatáu i ddysgwr gynnal swydd lawn-amser, ac nid oes gofyn iddynt dalu ffioedd. Rydym yn gefnogol i unrhyw fenter sy'n amrywio llwybrau i AU ac yn darparu ar gyfer y rhai sy'n llai tebygol o allu cael mynediad i addysg brifysgol draddodiadol. Rydym yn llwyr gefnogol i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at y peilot ac yn eu hannog i barhau i ariannu hyfforddiant yn llawn.

**Cwestiwn 6. Sut mae'r cynllun peilot gradd-brentisiaeth wedi effeithio ar lefel eraill brentisiaethau, os o gwbl?**

Nid oes gennym ddigon o ddata ar gael i wneud asesiad cywir o effaith prentisiaethau gradd ar brentisiaethau eraill. Gan mai dim ond 155 o bobl ddechreuodd ar brentisiaethau gradd yng Nghymru yn 2018/19, mae'n annhebygol y byddai effaith sylweddol wedi bod. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn arweiniad llywodraethau'r DU a'r Alban wrth gyflwyno data ar gyfranogiad mewn prentisiaethau.

**Cwestiwn 7. A ddylid newyd unrhyw agwedd ar y dull o ddarparu gradd-brentisiaethau, ac os felly, beth ddylai'r cyfeiriad fod ar gyfer y dyfodol?**

Bydd datblygu profiad dysgwyr a phartneriaeth o fewn prentisiaethau gradd yn gam nesaf pwysig wrth ddatblygu cymwysterau sy'n gweithio i'r dysgwr, y cyflogwr a'r darparydd addysg. Mae arolwg cyflog prentisiaid 2018/19[6] yn dangos bod yr arfer anghyfreithlon o dalu rhy ychydig i brentisiaid yn fater parhaus, sydd ddim am ddiflannu. Credwn y dylai strwythurau cynrychiolaeth ac eiriolaeth cryfach fod ar waith i ddiogelu ein prentisiaid ac atal cyflogwyr rhag manteisio ar arian cyhoeddus ar gyfer prentisiaethau.

Partneriaeth dysgwyr a myfyrwyr yw'r allwedd i sicrhau bod y diwygiadau sydd ar y gweill i addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru yn llwyddiannus. Rydym yn dadlau bod y gofyniad am bartneriaeth myfyrwyr wedi'i gwreiddio yn y ddeddfwriaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol sydd ar ddod. Mae hyn yn cynnwys ym mhob lleoliad lle mae prentisiaethau gradd yn cael eu cyflwyno. Er bod partneriaeth myfyrwyr yn edrych yn wahanol o fewn gwahanol gyd-destunau addysg, mae UCM Cymru yn gwybod bod strwythurau partneriaeth myfyrwyr llwyddiannus ar unrhyw ffurf yn wleidyddol hunan-reolus, yn annibynnol yn strwythurol, ac wedi'u hariannu'n llawn.

Credwn hefyd, os yw Llywodraeth Cymru eisiau i'r system sgiliau yng Nghymru gynnal aliniad â systemau Ewropeaidd, rhaid canolbwyntio mwy ar gynyddu cyfran yr hyfforddiant i-ffwrdd-o'r-gwaith mae prentisiaid yn ei dderbyn yn ystod eu prentisiaeth. Canfu'r arolwg cyflog prentisiaid hefyd mai menywod yng Nghymru yw'r lleiaf tebygol o dderbyn unrhyw hyfforddiant i-ffwrdd-o'r-gwaith o gymharu ag unrhyw le arall yn y DU - gyda dim ond 23% yn elwa o hyn.

[6] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/857212/aps-2018-19-wales-report.pdf

**Open University in Wales – Response to the Economy, Infrastructure and Skills Committee consultation on Degree Apprenticeships**

## About The Open University in Wales

1. The Open University (OU) was established in 1969, with its first students enrolling in 1971. It is a world-leader in providing innovative and flexible distance learning opportunities at higher education (HE) level. It is open to people, places, methods and ideas. It promotes educational opportunity and social justice by providing high-quality university education to all who wish to realise their ambitions and fulfil their potential.

2. Over 10,000 students across Wales are currently studying with The Open University. There are OU students in every National Assembly for Wales constituency and we are the nation's leading provider of undergraduate part-time higher education. Almost three out of four Open University students are in employment while they study and with an open admissions policy, no qualifications are necessary to study at degree level. Over a third of our undergraduate students in Wales join us without standard university entry level qualifications.

3. As a world leader in educational technology, our vast 'open content' portfolio includes free study units on the free online learning platform OpenLearn (including many Wales-related materials and our Welsh Language platform OpenLearn Cymru) and substantial content on YouTube and on iTunes U where we have recorded over 70 million downloads.

4. The OU is delivering degree apprenticeships in all four nations of the United Kingdom and has 35 apprentices registered on the Applied Software Engineering pathway in Wales.

## Response to consultation questions

5. Below we have set out our responses to each of the questions set by the Committee.

*Have any issues become apparent during the rollout of degree apprentices and what lessons can be learnt from their introduction?*

6. The Open University (OU) in Wales found that in year 1 the timeframe to launch degree apprenticeships was too short and did not provide enough time to resource, develop, accredit and promote in time for the October 2018 start

date. The OU in Wales would welcome longer lead times for future changes to prevent this from happening again.

7. The OU in Wales found that the allocation of funding being announced in mid-July for the 2019/20 academic year was too late. As a consequence, The OU in Wales has been unable to fill our allocated numbers, particularly apprenticeship vacancies, as employers did not have enough time to advertise, recruit and employ degree apprentices. This process can usually take up to three months, which is less time than we had ahead of our registration cut off for October and does not take into account the holiday period in August. For comparison, The OU in Scotland received their funding allocation for 2020/21 in November 2019, which is allowing them to plan recruitment of apprentices and take time to grow strategically. The OU in Wales would welcome funding being allocated to HEIs immediately after the HESA reference period two to provide adequate time to recruit apprentices for the following academic year.

8. In years 1 and 2 of the pilot, the bid process included a requirement for employers to provide signed, indicative degree apprenticeship numbers. The OU in Wales found the process to be disruptive to employer engagement and was, in both years, an inaccurate reflection of the employers that converted. The OU in Wales found the time delay between employer engagement for the bid, and then re-engagement after contract award in July, was too long and as peak holiday season arrived, employer priorities changed and they were unable to respond quickly enough. The OU in Wales welcomed feedback from HEFCW that this would not be a requirement for the 2020/21 funding bid.

9. The OU in Wales has found, through employer engagement for our existing offer, that there is demand for more level 6 provision and the introduction of level 7 provision from employers and employees. The OU in Wales would welcome plans to broaden degree apprenticeships at these levels. Please refer to points 12 and 13 for more detail.

*Was the process and criteria used for approving proposals from providers to deliver degree apprenticeships satisfactory?*

10. The OU in Wales feels that aside from the timeframe for bringing degree apprenticeships to market in year 1 and the lateness of the funding allocation in year 2, the process was satisfactory.

11. The OU in Wales commends HEFCW for the way it has managed the roll out of degree apprenticeships, and for its on-going support, which has been effective in supporting the university to grow the programme.

*What are your views on the demand for degree apprenticeships and how that demand should be managed, both in terms of the range of frameworks and demand from employers and learners?*

12. Demand for degree apprenticeships is continuously growing as awareness improves. The OU in Wales feels that it is important to provide employers with

the confidence that there is a long-term plan for the provision. The OU in Wales also believes HEIs should have some assurance on the continuation of degree apprenticeships so that there is sufficient return on investment into the programmes for the longer term. In addition, it should be noted that the lead time for developing new courses in terms of curriculum and quality assurance necessitates a longer lead in.

13. The OU in Wales has identified, through employer engagement for our existing degree apprenticeship offer, demand for broader provision at level 6, specifically in the following areas:

- Digital – a flexible digital framework which allows apprentices to gain mandatory/core digital skills in the early stages of their degree, then select specialisms in the latter stages. Many employers recognise digital skills as a requirement for their organisations to grow, irrespective of industry, but feel a specific competency (i.e. Software Engineering, Cyber Security or Data Science) is a difficult long-term commitment. Many HEIs in Wales will already offer a range of Computing & IT degrees and The OU in Wales proposes that this could be a pathway introduced into the existing Digital Apprenticeship framework.

- Leadership and management – The OU's Business Barometer 2019 highlighted that managerial roles at senior, intermediate and junior level were the most difficult to fill. A degree apprenticeship in this area will provide opportunities for employers to address skill shortages within their own organisations and develop staff from within. It will also provide a useful progression pathway for apprentices completing programmes at levels 3,4 and 5 in a variety of sectors.

- Health and social care – The OU in Wales would be interested to know, given the size and priority sector status of health and social care, if any area would be planned for degree apprenticeship development. The OU in Wales would welcome seeing guidance from the Welsh Government on any long-term plans for this provision.

- Professional Services – The OU in Wales has also had smaller numbers of requests for legal, accountancy and HR degree apprenticeships. These skills are listed in each of the Regional Skills Partnership priorities and The OU in Wales would be keen to explore this further.

14. The OU in Wales has identified demand for the introduction of level 7 provision in the following area:

- Leadership and management – leadership skills among senior level staff, often within SMEs, are in demand. Employers often have skilled senior staff with degrees relevant to their role but lack the skills to lead people and organisations. The Senior Leader Master's Degree Apprenticeship is delivered by The OU in England and includes our triple-accredited MBA. The OU in Wales recognises that apprenticeships in this area can produce higher volume and impact the overall budget, however as a level 7 offer it would cost

less to fund per head and could be managed through stricter entry requirements.

*To what extent should activity aimed at widening access feature in degree apprenticeship recruitment, and how can this be used to ensure that cohorts are representative?*

15. Higher education has a key role to play in improving fair access to the professions. We believe that Degree Apprenticeships can offer students from non-traditional backgrounds the opportunity to develop high-level skills in the priority sectors, thus contributing to economic prosperity and diversifying Wales' workforce. The OU in Wales has been successful in recruiting significant numbers of widening access students to our undergraduate programmes and we believe that we could extend this to Degree Apprenticeships, if we were able to offer an appealing range of frameworks for students and employers to draw from.

16. In our view, Degree Apprenticeships offer the potential to benefit both school leavers from disadvantaged backgrounds and mature learners already in the workforce, potentially increasing social mobility. However, we believe that the key to widening access to degree level apprenticeships is to ensure the availability of clearly articulated progression pathways from lower-level apprenticeships to those at degree level.

*Do you have any comments on the cost of degree apprenticeships, how degree apprenticeships are funded and the level of funding committed to them?*

17. The OU in Wales is satisfied with the funding committed by the Welsh Government to the pilot period. The allocation for the three years provides an appropriate level of funding to allow the pilot to grow and be effectively measured.

18. HEFCW has managed the administration of degree apprenticeships well. The notable absence of bureaucracy and onerous and frequent funding claims has enabled The OU in Wales to focus more on operational efficiency.

*How has the degree apprenticeship pilot impacted on other level apprenticeships, if at all?*

19. The introduction of degree apprenticeships has helped The OU in Wales develop new relationships with FE colleges and work-based learning providers, as we seek opportunities to create pathways into degree apprenticeships from lower-level provision. The OU in Wales feels this is positive and it will provide longer term opportunities for apprentices with lifelong learning and progression. It has also supported new dialogue about progression pathways for apprentices from level 2-7, which The OU in Wales documented in the Welsh Government's recent *Structure for Welsh Apprenticeship frameworks* consultation.

20. The OU in Wales is working with several employers who had not been involved with apprenticeships at the point of engagement. This has led to opportunities to inform these employers about apprenticeships at all levels and all ages, which has in turn led to greater awareness of the wider offer.

21. The OU in Wales is in the process of developing a relationship with a further education college, which will eventually provide progression from apprenticeships at levels 3 and 4 onto an OU degree apprenticeship. Apprentices on IT apprenticeships in the college will soon have the option of furthering their skills and knowledge to degree level, which will support the college develop more opportunities in a priority sector and help those apprentices realise their potential.

*Should any aspect of the approach to delivering degree apprenticeships change and if so, what should be the future direction?*

22. The OU in Wales would like to see the Welsh Government showcasing the investment made into degree apprenticeships through a mass marketing campaign and use of case studies to raise awareness with all employers and future degree apprentices.

23. Including degree apprentices in categories in the Apprenticeship Awards Cymru would help to raise awareness of the programme and celebrate the successes of apprentices at this level. The OU in Wales would like degree apprenticeships to be recognised alongside programmes at all levels as a viable, high standard of work-based learning.

24. Publishing longer term plans for degree apprenticeships, alongside an implementation plan for additional frameworks and levels, will support HEIs to plan effectively and provide employers with the confidence that continued investment into this important area of skills development will be sustained.

25. It is imperative that HEIs are provided with suitable timescales to support the development of high-quality programmes and to enable suitable institutional investment into the growth of degree apprenticeships.

***23 January 2020***

***Contact: Rhys Daniels, Apprenticeships Programme Development Manager, The Open University in Wales***

**Inquiry Terms of Reference**

The Committee will explore, discuss and seek information on the following aspects of degree apprenticeships**:**

- The rationale for degree apprenticeships;

*Offering degree level education is essential to underpin economic growth and prosperity. Providing an alternative education pathway verses that of going to university (as a full time student) is an essential element of securing growth as it provides an educational pathway suited to students with differing learning styles.*

*Additionally, the business benefit of having a apprentice in employment whilst they are studying is a well understood win win and provides a well rounded and experienced employee who often will stay with the organisation for the long term*

- The process and criteria for approving proposals from providers to deliver degree apprenticeships;

*A review of this process needs to be made. The current administrative bodies that cover education in Wales are operating in Silos, one part responsible for Further education and the other responsible for Higher education.*

*Degree apprenticeships by their very nature transcend these bounders as learners start at level 3 and progress over the life of the apprenticeship to level 6.*

*Currently the ownership of apprenticeships, both their frameworks development and funding is confusing and unclear. Clear accountability needs to be defined to ensure the validity and quality of the Apprenticeship is understood and maintained inline with business needs.*

- Demand from employers and learners, both for the current frameworks or any demand for additional frameworks, and how it is being managed;

Attracting talent is essential for our future survival. Developing pathways that support future skilling needs is essential. The process currently underpinning Apprenticeship Framework development is underpinned by the Sector skills councils.

The onset of standards in England and the subsequent demise of the SSC role means that a credible alternative for development and control of framework development must be found quickly to ensure that the knowledge based

needed to develop these frameworks is owned and protected by a Welsh administrative body.

- The recruitment of degree apprentices and the personal characteristics of the 2018/19 cohort and the 2019/20 cohort so far to evaluate how they reflect groups under-represented in higher education and wider Welsh Government equality ambitions, including gender balance;

Equality targets will only be met when the product being offered is attractive to all. Ensuring gender balance in sectors like engineering will only be achieved through improving the students general awareness of STEM and the opportunities/career paths that can follow the study of such subjects.

The source of developing this awareness lies deep with our education system. A fundamental change in the infrastructure and methods that currently support career path selection is essential to achieve the fundamental shift in gender balance. "Do what we have always done and we will get what we have always got!"

- Employer engagement and the profile of employers accessing the degree apprenticeship programme including, if possible, the geographic spread;

The offering of funded degree apprenticeships needs to be balanced and centred around the identified regional employment needs identified by the RSP. This will allow the appropriate funding to be applied to support the required level of education in each key sectors.

- The degree apprenticeship funding model, the overall funding level and the funding commitment needed to 'teach-out' the three year pilot apprentices;
- Early views from employers, educational providers and learners on how well degree apprenticeships are working and lessons from their introduction;
- Views on Welsh Government's overall approach to degree apprenticeships, their rolling out, and their impact on, and relationship with sub-degree apprentices; and
- Views on the future direction and potential of degree apprenticeships."

**Invitation to contribute to the inquiry**

The Committee would like to invite you to submit written evidence to assist with the inquiry. General information regarding consultation procedures, which should be considered carefully before submitting evidence to the Committee, is set out in the Annex.

**The Committee would welcome your views on any or all of the issues covered in the terms of reference, and in particular on the following questions:**

- Have any issues become apparent during the rollout of degree apprentices and what lessons can be learnt from their introduction?

*The demise of the SSC has meant that the their is a severe shortage of experienced education practitioners to develop the degree frameworks. In the long term this issue we become more acute as development and review cycles reduce (to support industrial evolution).*

*Clear ownership and therefore knowledge retention needs to be defined to ensure the validity and quality of the Apprenticeship are maintained inline with business needs.*

- Was the process and criteria used for approving proposals from providers to deliver degree apprenticeships satisfactory?

*No. Whilst the outcome has provided a quality education path, there was an underpinning reliance on one individual to run to both collate and develop the educational pathways. This individuals was a contractor with no long term affiliation with Wales. We see this as a considerable risk to long term knowledge management.*

- What are your views on the demand for degree apprenticeships and how that demand should be managed, both in terms of the range of frameworks and demand from employers and learners?

The offering of funded degree apprenticeships needs to be balanced and centred around the identified regional employment needs identified by the RSP. This will allow the appropriate funding to be applied to support the required level of education needed in each key sector.

- To what extent should activity aimed at widening access feature in degree apprenticeship recruitment, and how can this be used to ensure that cohorts are representative?

The point should be not to limit the development of degree programmes, the point should be to make sure their availability supports regional and national needs. This strategic link is what is missing in the English system and has resulted in the proliferation of degree programmes and a subsequent impact on funding availability.

- Do you have any comments on the cost of degree apprenticeships, how degree apprenticeships are funded and the level of funding committed to them?

Degree programmes should be fully funded as long as they are meeting the strategic needs defined by the RSP.

Secondly, structured negotiations are needed with universities to challenge the 9k flat cost. An apprenticeship by its nature is part time, therefore their as sound logic to approach costing in the same way it is applied in FE i.e. bottom

up with the burden of proof necessary to create a competitive costing structure. This will provide a cost effective way for the Welsh Gov to support all levels of apprenticeship.

- How has the degree apprenticeship pilot impacted on other level apprenticeships, if at all?

Not aware of any direct impact other than the cost impact of the costs incurred by the universities 9k flat charge rate.

- Should any aspect of the approach to delivering degree apprenticeships change and if so, what should be the future direction?

1. Based on defined regional and sector needs.
2. Programme content should be owned and maintained by a body of specialists. The approach to content development should be treated as a project and draw on the expertise and knowledge of relevant business/sectors representatives into a multifunctional team who both guide the content development and review the final proposed content.
3. Maximum by-annual content review to keep pace with change.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle a ddarparwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i Brentisiaethau Gradd. Mae'r rhaglenni prentisiaethau gradd yn newydd ac yn eu cyfnod peilot, felly nid ydynt wedi bod yn destun adolygiad ffurfiol ynglŷn â'u hansawdd a'u heffeithiolrwydd eto. Felly, mae'r sylwadau isod wedi'u seilio ar wybodaeth a gafwyd o blith ystod o weithgareddau, gan gynnwys sgyrsiau â rhanddeiliaid allweddol, cyfarfodydd a chynadleddau, yn ogystal â'n sail dystiolaeth yn gysylltiedig â chyflwyno prentisiaethau ar lefelau eraill.

At ei gilydd, mae Estyn yn croesawu datblygu'r rhaglen prentisiaethau ymhellach ar bob lefel. Mae gan ddysgu yn y gwaith y potensial i ymateb mewn ffordd hyblyg i sicrhau bod gennym y gweithlu medrus sydd ei angen arnom nawr, ac yn y dyfodol. Mae datblygu'r rhaglenni prentisiaethau gradd yn rhan bwysig o'r strategaeth ac mae ganddynt y potensial i godi ymwybyddiaeth ymhellach o werth prentisiaethau gyda chyflogwyr, dysgwyr a rhieni. Rydym wedi darparu adborth manylach isod, ond byddem yn annog, wrth fynd ymlaen:

- Fod gweithgarwch clir a strwythuredig yn y gwaith, gan gynnwys ymweld â dysgwyr yn rheolaidd yn eu gweithleoedd, i gynnal asesiad yn y gwaith, a neilltuo mentor yn y gweithle.
- Bod amrywiaeth y fframweithiau prentisiaethau gradd yn cael eu hehangu, i feithrin hygrededd o ran y llwybr prentisiaethau.
- Bod recriwtio yn cael ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ehangu cyfranogiad.

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich safbwyntiau ar unrhyw un, neu'r cyfan, o'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y cylch gorchwyl, ac yn benodol, y cwestiynau canlynol:**

- **A oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn ystod cyfnod cyflwyno'r prentisiaethau gradd, a pha wersi y gellir eu dysgu o'u cyflwyno?**

Ar hyn o bryd, ni chaiff rhaglenni prentisiaethau gradd eu hysbysebu'n eang, felly prin yw'r bobl y tu allan i gyflogwyr a darparwyr sy'n cyflwyno'r rhaglenni sydd ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt. Mae'r rhaglen wedi cael ei chyflwyno'n dawel iawn ar adeg pan gaiff hyfforddiant galwedigaethol ei gydnabod yn fwy fel dewis arall hyfyw yn lle llwybrau academaidd traddodiadol. Collwyd y cyfle i ail-lansio'r cynnig prentisiaethau yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y rhaglen radd. Mae hyn yn gyfle a gollwyd i ddangos yn glir pa lwybrau mynediad a dilyniant sydd ar gael i ddysgwyr. Nid yw ystod gyfyng y prentisiaethau gradd sydd ar gael yn helpu wrth farchnata'r llwybr prentisiaethau fel dewis pwysig arall ar lefel gradd.

Mae'n hanfodol fod prifysgolion yn cynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n cael eu llunio yn fformat dysgu yn y gwaith, fel y'u cyflwynir gan y darparwyr hyfforddiant hynny sy'n llwyddiannus / effeithiol mewn rhaglenni prentisiaeth uwch. Mae hyn yn golygu gweithio gyda chyflogwyr i gynllunio a chyflwyno rhaglenni teilwredig, a pheidio â bod yn or-ddibynnol ar addasu cyrsiau sy'n bodoli eisoes.

Mae mwyafrif y dysgwyr a ariennir sy'n dilyn y prentisiaethau gradd wedi dod o gwmnïau mawr cenedlaethol yn ystod cyfnod cychwynnol cyflwyno rhaglenni i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau. Mae angen marchnata cyfleoedd prentisiaethau gradd yn fwy trylwyr ar ôl y cyfnod peilot i wneud yn siŵr fod yr holl gyflogwyr a dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae cyflogwyr yn datgan, oherwydd y diffyg gweithgarwch yn y gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y prentisiaethau gradd, fod angen iddynt weithio gyda darparwyr hyfforddiant eraill ar yr un pryd weithiau i sicrhau bod prentisiaid yn ennill cymwysterau eraill, sy'n aml ar lefel is, i'w harfogi â'r medrau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer eu rôl swydd.

Dylid monitro cynnydd dysgwyr trwy adolygiadau cynnydd yn y gweithle ar gyfer prentisiaid gradd yn rheolaidd, yn debyg i arfer ar gyfer rhaglenni prentisiaethau a phrentisiaethau uwch presennol. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd tuag at gwblhau eu rhaglen neu nodi cynnydd araf a'r risg o beidio â chwblhau eu rhaglen.

- **A oedd y broses a'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer cymeradwyo cynigion gan ddarparwyr i gyflwyno prentisiaethau gradd yn foddhaol?**

Mae prentisiaethau ar bob lefel yn cynnwys elfennau allweddol nad oeddent yn rhan o'r cynnig gwreiddiol ar gyfer y prentisiaethau gradd. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i ymweld â dysgwyr yn rheolaidd yn eu gweithleoedd i gynnal asesiad yn y gwaith a chynnal adolygiadau cynhwysfawr o gynnydd dysgwyr a gosod targedau o ran asesiadau.

Mae rhaglenni prentisiaeth yn hynod ddibynnol ar hyfforddi a mentora yn y gweithle. Yn ein hadroddiad ar brentisiaethau uwch[1], fe wnaethom adrodd bod cyflogwyr, yn yr achosion gorau, yn neilltuo mentor profiadol i weithio gyda'u dysgwyr, ond mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr yn cael unrhyw gymorth mentora gan eu cyflogwyr. I sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial ac yn datblygu'r medrau gweithle sy'n ofynnol gan eu cyflogwyr, dylid nodi mentor gweithle ar ddechrau'r rhaglen. Dylai dogfennau cynigion a chymeradwyo ganolbwyntio'n graffach ar y modd y byddai'r elfennau hyn yn cael eu cyflwyno a'u monitro. Mae gan sefydliadau addysg uwch arbenigedd mewn cynllunio a chyflwyno cyrsiau gradd ond â llai o brofiad o gyswllt â chyflogwyr a dysgwyr yn y gweithle ar gyfer yr elfen dysgu yn y gwaith.

Yn y dyfodol, byddai'n fuddiol pe bai'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion yn datgan yn glir sut byddai gofynion allweddol dysgu yn y gwaith o fewn y rhaglenni yn cael eu bodloni. Mae'n hanfodol fod y rhaglen yn cael ei chynllunio'n glir a'i chyflwyno fel rhaglen dysgu yn y gwaith ac nid rhaglen rhyngosod gradd bresennol sydd wedi'i haddasu ychydig neu un sy'n cynnwys elfen fach o brofiad yn y gweithle neu interniaeth.

---

[1] https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Higher%20apprenticeships%20in%20work-based%20learning%20-%20cy.pdf

- **Beth yw eich safbwyntiau ar y galw am brentisiaethau gradd, a sut dylid rheoli'r galw hwnnw, o ran ystod y fframweithiau a'r galw gan gyflogwyr a dysgwyr?**

Dylid rheoli'r galw i weddu i anghenion economaidd y wlad, cyflogwyr a'r dysgwyr. Ni ddylai'r galw gael ei yrru gan gyflogwyr mawr i sicrhau crynswth y cyllid a ddyrannwyd, ac ni ddylid ei ddefnyddio ychwaith i ychwanegu at raglenni hyfforddi lle gallai fod yn rhesymol disgwyl i'r cyflogwr dalu am hyfforddiant.

Ar hyn o bryd, mae ystod y fframweithiau wedi'i chyfyngu i gynnig y cynllun peilot. Fodd bynnag, i ddiwallu anghenion amrywiaeth eang o gyflogwyr, dylid ehangu'r cynnig ar ôl y cynllun peilot. Byddai ystod ehangach o gyfleoedd yn sefydlu'r math hwn o hyfforddiant ar lefel gradd fel dewis arall hysbys a hyfyw yn lle cyrsiau gradd amser llawn mewn prifysgol.

Mae angen i ystod y fframweithiau adeiladu'n gliriach hefyd ar ystod y fframweithiau prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol eraill ar lefelau 1-5. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau'n gynyddol trwy eu gyrfa.

- **I ba raddau y dylai gweithgarwch wedi'i anelu at ehangu mynediad ymddangos wrth recriwtio ar gyfer prentisiaethau gradd, a sut gellir defnyddio hyn i sicrhau bod carfanau yn gynrychioliadol?**

Mae angen hyrwyddo prentisiaethau gradd yn well mewn ysgolion, a thargedu amrywiaeth ehangach o bobl ifanc trwy ddigwyddiadau marchnata a hyrwyddo. Ar gyfer y cynlluniau peilot presennol, roedd llai nag 14% o garfan y flwyddyn gyntaf ar gyfer y prentisiaethau gradd o dan 21 mlwydd oed. Dylid hyrwyddo prentisiaethau gradd yn lle astudio am radd draddodiadol ar gyfer y rhai sydd â chymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol lefel 3.

Dylai dulliau recriwtio a meini prawf mynediad adlewyrchu'r fethodoleg bresennol i recriwtio ar gyfer dysgu yn y gwaith trwy ddefnyddio dulliau asesu cychwynnol i bennu set medrau ymarferol a gallu dysgwr. Dylid cynnwys cyfarfodydd adolygu cynnydd rheolaidd gyda dysgwyr a chyflogwyr i fonitro cynnydd a sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau eu cymhwyster o fewn yr amserlen benodol. Dylai rhaglenni gynnwys rhaglen strwythuredig o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i sicrhau bod dysgwyr yn rhwydweithio â dysgwyr eraill, yn rhannu arfer orau ac yn cyfnewid syniadau am yr arferion gweithio.

Caiff rhaglenni prentisiaethau gradd y cyfle i ganolbwyntio ar ddau lwybr mynediad clir. Yn gyntaf, gallai'r dysgwyr hynny sydd wedi bod mewn cyflogwr ac wedi mynd ymlaen i lefelau uwch gael cynnig cyfle i fynd ymlaen i hyfforddiant ar lefel gradd. Byddai'r ail lwybr ar gyfer dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid a allai gofrestru'n uniongyrchol ar raglen prentisiaeth gradd.

Mae'r rhaglen prentisiaeth gradd beilot yn cynnwys dysgwyr presennol yn bennaf, sydd wedi mynd ymlaen i lefel uwch. O ganlyniad, nid yw'n ehangu mynediad o grwpiau annhraddodiadol ar hyn o bryd. Yn dilyn gwerthusiad o'r rhaglen beilot ac yn

sgil cyflwyno mwy o raglenni gradd, byddai cyfle i ehangu amgyffrediad a dealltwriaeth cyflogwyr a'r cyhoedd o raglenni prentisiaeth gradd. Gallai hyn farchnata rhaglenni ac ymgysylltu â grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, fel merched, i ddilyn rhaglenni annhraddodiadol, a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Gallai ein hadroddiadau cynharach ynghylch Rhwystrau rhag Prentisiaeth (2014)[2] a Chwalu Rhwystrau rhag Prentisiaethau fod o gymorth i'r pwyllgor[3].

- **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gost prentisiaethau gradd, sut caiff prentisiaethau gradd eu hariannu, a lefel y cyllid a neilltuir ar eu cyfer?**

Mae cost prentisiaethau gradd yn debyg i gost cyrsiau gradd cyfatebol. Fodd bynnag, mae'r cyllid trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy fenthyciad myfyrwyr, sef £9,000 neu £10,000 a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer pob rhaglen radd i brentisiaid.

Gallai'r dewis hwn fod yn fwy poblogaidd i ddysgwyr a rhieni pan fydd mynediad ar gael i newydd-ddyfodiaid, ac nid y rhai sydd eisoes mewn swydd gyda'u cyflogwr. Bydd tensiwn a phwysau dilynol ar gyllid yn dod gan gyflogwyr sy'n talu ardollau sy'n aml yn gweld bod angen adfer yr arian y maent wedi'i dalu i mewn i'r ardoll ar gyfer rhaglenni hyfforddi. Ni ddylai'r cyllid ar gyfer rhaglenni gradd fod ar draul rhaglenni lefel is. Mae angen gwella medrau'r gweithlu ledled Cymru. Fodd bynnag, mae angen gwella medrau dysgwyr yn sylweddol i lefel 2 a lefel 3 a sefydlu llwybrau dilyniant clir ar ôl hynny i'r lefelau uwch, lle bo'n briodol.

- **Sut mae cynllun peilot y prentisiaethau gradd wedi effeithio ar brentisiaethau lefelau eraill, os yw wedi effeithio arnynt o gwbl?**

Ar hyn o bryd, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch unrhyw effaith sylweddol ar lefelau eraill. Mae angen i'r sector fod yn ymwybodol y gallai cost uchel prentisiaethau gradd leihau nifer y dysgwyr sy'n dechrau hyfforddiant ar lefelau is o ganlyniad i gyfyngiadau cyllid. Mae angen i brentisiaethau gradd ychwanegu at y rhaglen prentisiaeth a gynigir, a pheidio â rhoi cyfyngiad gorfodol ar y rhai sy'n dechrau ar lefelau is.

Mae galw sylweddol gan ddysgwyr a chyflogwyr ar gyfer prentisiaethau. Mae llawer o gyflogwyr ledled Cymru yn cydnabod bod fframweithiau lefel 3 yn darparu statws medrus, a bod dysgwyr yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwyr. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i gyfleu gwerth llwybrau prentisiaeth i rieni.

---

2 https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Rhwystrau%20rhag%20prentisiaeth%20-%20Tachwedd%202014.pdf

3 https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Breaking%20down%20barriers%20to%20apprenticeship%20cy.pdf

- **A ddylid newid unrhyw agwedd ar ddull cyflwyno prentisiaethau gradd, ac os felly, beth ddylai'r cyfeiriad fod yn y dyfodol?**

Dylai dull cyflwyno ac asesu rhaglenni prentisiaeth gradd adlewyrchu'r ffordd y caiff rhaglenni prentisiaeth eraill eu cyflwyno a'u hasesu. Mae dysgu yn y gwaith, fel pob sector addysg a hyfforddiant, wedi sefydlu gofynion ac arbenigeddau. Gellir dadlau mai'r agwedd bwysicaf yw'r angen am staff arbenigol sy'n gallu ymweld â dysgwyr yn eu gweithleoedd yn rheolaidd i gynnal adolygiadau cynnydd a gosod targedau heriol ar gyfer cwblhau gwaith. Yr aelodau staff hyn hefyd yw'r cyswllt rhwng y cyflogwr a'r dysgwr i wneud yn siŵr fod yr hyfforddiant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dysgu yn y gwaith. Mae angen strwythuro a chynllunio'n ofalus er mwyn gweddu i anghenion yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae dysgu yn y gwaith yn cynnwys rhaglen o weithgareddau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith ar draws blwyddyn galendr, ac o'r herwydd, ni ddylid ei weddu i flwyddyn academaidd yn unig. Yn sgil gwella ac ehangu'r cynnig prentisiaethau gradd, bydd angen i sefydliadau addysg uwch hyfforddi neu recriwtio aseswyr arbenigol ar gyfer y rhaglenni hyn.

Yn ein hadroddiad ar brentisiaethau uwch, canfuom fod cyflogwyr, mewn mwyafrif o achosion, yn darparu cymorth mentora buddiol ar gyfer dysgwyr. Mae'n hanfodol cael mentor gweithle dynodedig i alluogi dysgwyr i gael eu cynorthwyo, rhannu arfer orau a thrafod syniadau ynglŷn â sut orau i gyflawni eu nodau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr yn cael unrhyw gymorth mentora gan eu cyflogwr. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwneud cynnydd arafach ac nid ydynt yn datblygu a chymhwyso eu medrau theori yn ddigon da.

O ran sicrhau ansawdd prentisiaethau gradd, mae Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi sefydlu protocolau ar y cyd i gydweithio â CCAUC. Byddai Estyn yn awyddus i weithio gyda sefydliadau sicrhau ansawdd eraill ar ddatblygu adolygiad ansawdd ar y cyd, i adeiladu ar ein harbenigedd a'n profiad mewn arolygu prentisiaethau ar lefelau 1-5.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Russell George AM
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynuliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Mawrth 2020

Annwyl Russell George AM

Yn dilyn ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Radd-Brentisiaethau ar 27 Chwefror, efallai byddai'n ddefnyddiol i ni roi eglurhad o'n tystiolaeth ysgrifenedig, oherwydd teimlwn fod ein hymateb, o bosibl, wedi'i gamddehongli yn sesiwn y pwyllgor.  Bwriad ein hymatebion i'r cwestiynau a ofynnoch oedd bod yn ddefnyddiol a chynorthwyo â'r adolygiad o raglenni peilot y radd-brentisiaeth, ac ni fwriadwyd iddynt fod yn feirniadaeth ohonynt.

Seilir ein tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar ein profiad helaeth o arolygu prentisiaethau a phrentisiaethau uwch, gan gynnwys negeseuon ac argymhellion ein hadroddiad, Prentisiaethau Uwch. Hefyd, tynnodd y dystiolaeth ar y trafodaethau a gawsom yn y sector gyda darparwyr dysgu yn y gwaith a chyflogwyr fel rhan o'n harolygiadau, ein harolygiadau thematig ac ymweliadau ein harolygwyr cyswllt.Nid ydym wedi ymwneud â chynllunio'r radd-brentisiaethau beilot, dewis y darparwyr nac unrhyw fonitro ansawdd sy'n mynd rhagddo.  Roedd ein hymateb i'r cwestiynau am gynllunio a meini prawf y rhaglenni peilot wedi'i seilio ar yr hyn a ddysgom o arfer darparwyr effeithiol prentisiaethau uwch.Roedd y cafeat hwn wedi'i ddatgan yn glir yn ein tystiolaeth ysgrifenedig.

Yn ein tystiolaeth, soniom y '*byddai'n fuddiol pe bai'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion yn datgan yn glir sut byddai gofynion allweddol dysgu yn y gwaith o fewn y rhaglenni yn cael eu bodloni. Mae'n hanfodol fod y rhaglen yn cael ei chynllunio'n glir a'i chyflwyno fel rhaglen dysgu yn y gwaith ac nid rhaglen rhyngosod gradd bresennol sydd wedi'i haddasu ychydig neu un sy'n cynnwys elfen fach o brofiad yn y gweithle neu interniaeth*.'  Nid oedd hyn yn golygu ein bod o'r farn bod diffyg gweithgarwch dysgu yn y gwaith mewn rhaglenni gradd peilot presennol, gan nad ydym wedi ymwneud â'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion. Mae fframweithiau'r radd-brentisiaeth yn nodi'n glir fod angen darparu hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Nod ein sylwadau oedd pwysleisio pa mor bwysig yw hi

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

bod yr agweddau hyn yn ategu'i gilydd yn effeithiol, a pha mor bwysig yw cynnwys y cyfle i ennill unrhyw gymwysterau technegol perthnasol eraill yn ychwanegol at y radd. Yn ein harolygiadau o ddarparu prentisiaethau ar lefelau eraill, rydym wedi darganfod ei bod hi'n hanfodol bod hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith wedi'u cynllunio fel eu bod yn ategu'i gilydd a bod y berthynas hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn darparu yn ôl y bwriad.

O'n hadroddiad ar brentisiaethau uwch, nodom fod cyflogwyr yn yr achosion gorau yn neilltuo mentor profiadol i weithio gyda'u dysgwyr ond, mewn ychydig achosion, nid yw dysgwyr yn cael unrhyw gymorth mentora gan eu cyflogwr. I sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd eu potensial llawn ac yn datblygu sgiliau'r gweithle y mae ar eu cyflogwr eu hangen, dylid enwi mentor yn y gweithle ar ddechrau'r rhaglen.  Dyma oedd un o argymhellion ein hadroddiad, a fyddai'n gyngor defnyddioli'r rhaglennigradd-brentisiaeth, yn ein barn ni.

Pan soniom yn ein tystiolaeth ysgrifenedig y gall fod llai o brofiad gan sefydliadau addysg uwch o gyswllt â chyflogwyr a dysgwyr yn y gweithle ar gyfer yr elfen dysgu yn y gwaith, roeddem ond yn golygu bod gradd-brentisiaethau yn ffordd newydd o gyflwyno addysg uwch, sy'n wahanol ac ar wahân i fodelau blaenorol. Nid y bwriad oedd awgrymu nad oes gan brifysgolion a sefydliadau rheoledig eraill addysg uwch eisoes amrywiaeth o bartneriaethau â chyflogwyr trwy eu gwaith amrywiol. Pan ysgrifennwn 'dysgu yn y gwaith' rydym yn cyfeirio'n benodol at brentisiaethau, nid elfennau o ddysgu sydd â phrofiad gwaith ynghlwm.

Wrth drafod monitro ansawdd y cymorth y mae cyflogwyr yn ei gynnig y brentisiaid, amlygodd rhai tystion yr ymagwedd wahanol sydd i'w gweld ar hyn o brydrhwng methodoleg adolygiadau sicrhau ansawdd QAA ac Estyn.  Yn ein tystiolaeth ysgrifenedig, rydym yn datgan y byddem *'yn awyddus i weithio gyda sefydliadau sicrhau ansawdd eraill ar ddatblygu adolygiad ansawdd ar y cyd, i adeiladu ar ein harbenigedd a'n profiad mewn arolygu prentisiaethau ar lefelau 1-5*.'  Nid ydym yn mynd ati i arolygu ar sail un dull sy'n addas i bawb. Mae ein methodoleg ar gyfer arolygu darpariaeth prentisiaethau yn wahanol i arolygiad ysgol ac mae'n cynnwys arsylwi dysgwyr yn uniongyrchol yn cael hyfforddiant yn y gwaith, yn y gweithle, a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, sy'n cael ei gyflwyno mewn sawl ffordd oddi ar y safle neu yn y gweithle. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid o ddarparwyr prentisiaeth eraill fel rhan o'r tîm ac yn ystyried llais prentisiaid, staff y darparwyr hyfforddiant a'r cyflogwr, trwy arolygon pwrpasol. Mae arsylwi gweithgarwch hyfforddiant ac aseswyr yn uniongyrchol, ynghyd â chraffu ar waith

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

gwella a sicrhau ansawdd y darparwr hyfforddiant ei hun, yn llunio sail dystiolaeth ein barnau.

Rydym wedi croesawu gwahoddiad CCAUC i ni ymuno â QAA i gynnal adolygiad sicrhau ansawdd datblygiadol ar y cyd o raglenni peilot y brentisiaeth radd. Mae potensial i hyn alluogi cydweithio rhwng y ddau gorff ansawdd i sicrhau bod profiadau'r naill a'r llall ohonom yn gallu llywio'r adolygiad ansawdd pwrpasol ar gyfer y rhaglenni peilot hyn. Byddai hyn yn helpu i rannu dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r ddau ohonom yn mynd ati i sicrhau a gwella ansawdd, a galluogi'r adolygiad i ganolbwyntio ar bob agwedd ar raglen y radd-brentisiaeth, ar sail ein profiad a'n harbenigedd perthnasol yn sicrhau ansawdd prentisiaethau (Estyn) ac addysg uwch (QAA). Eisoes, mae gennym berthynas waith dda gyda CCAUC a QAA, sy'n cael ei chynnal trwy brotocolau gweithio ar y cyd a chyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth,yn enwedig lle mae ein cyfrifoldebau/diddordebau yn gorgyffwrdd – er enghraifft yn achos y rhaglenni newydd hyn ac wrth drafod addysg uwch mewn addysg bellach.

Byddem yn hapus i siarad â'r Pwyllgor am ein gwaith pe byddech o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i'r ymchwiliad.

Yn gywir

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon